**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

23 Medi 2025

# RHAN 1

## Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025 ("y Rheoliadau diwygio") yn diweddaru Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ("y Prif Reoliadau"), drwy'r weithdrefn gadarnhaol, i ddwyn i rym newidiadau i ddyletswyddau sy'n bodoli o dan y Prif Reoliadau ar gyrff cyfrifol y GIG.

2. Mae'r Rheoliadau diwygio yn diwygio'r trefniadau y disgwylir i gyrff cyfrifol eu gwneud i ymateb ac ymchwilio i bryderon, ac i hysbysu ynghylch canlyniad ymchwiliadau i bryderon, a hysbysir gan bersonau mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarperir gan neu o dan drefniadau gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, ac mewn perthynas ag elfennau o'r darpariaethau gwneud iawn o dan y Prif Reoliadau.

## Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Oherwydd gwallau a ganfuwyd yn y Rheoliadau a osodwyd ar 8 Gorffennaf 2025 SL(6)633[1], tynnwyd y Rheoliadau yn ôl ar 11 Medi 2025. Bellach, maent wedi'u diwygio ac mae fersiwn ddiwygiedig wedi'i gosod.

## Y cefndir deddfwriaethol

4. Gwneir y Rheoliadau diwygio o dan y pwerau a roddir gan y darpariaethau canlynol:

- adrannau 113(2), (3), 115(1), (2), (5), (6), a 195(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 ("Deddf 2003")[2],
- ac adrannau 1(1) i (4)(a), (5), (6), 2(1), (2), (4), (5), (6)(a), 3(1), (2)(b) i (d), 4(1), (2)(a), 5, 9(1) i (5), (7) ac 11(2), (3) o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 ("y Mesur")[3].

5. Mae adran 195(6) o Ddeddf 2003 yn darparu, yn rhinwedd adran 162(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 34(1) a (2) o Atodlen 11

[1] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=46250
[2] Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/43/contents
[3] Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2008/1/contents/welsh

iddi, y bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adrannau 113(2), (3), 115(1), (2), (5), (6), a 195(1) o Ddeddf 2003.

6. Mae adran 11(4) o'r Mesur yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adrannau 1(1) i (4)(a), (6), 2(1), (2), (4), (5), (6)(a), 4(1), (2)(a), 9(1) i (5), (7) ac 11(2), (3) o'r Mesur.

7. Mae adran 11(6)(c) o'r Mesur yn darparu y bydd y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ddrafft yn gymwys i Reoliadau a wneir o dan adrannau 1(5), 3, neu 5 o'r Mesur.

8. O dan adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, caniateir i ddarpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol gael ei chyfuno yn yr un offeryn â darpariaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. O ganlyniad, bydd y weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i'r Rheoliadau hyn.

## Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

9. Sefydlodd Gweinidogion Cymru Gynllun Gwneud Iawn y GIG o dan **y Prif Reoliadau** drwy arfer y pwerau o dan y darpariaethau canlynol:

- adrannau 113(2), (3), (4)(aa) a (b), 115(1), (2), (4) i (6) a 195 o Ddeddf 2003;
- adrannau 187 a 206 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006[4], ac
- adrannau 1 i 7, 9, 11 a 12 o'r Mesur.

10. Mae'r Prif Reoliadau wedi'u diwygio ar sawl achlysur, gan gynnwys gan Reoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023[5] a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023[6].

11. Gellir dod o hyd i grynodeb o'r diwygiadau a wnaed gan yr offerynnau hynny sy'n fwyaf perthnasol fel cefndir i'r diwygiadau hyn i'r Prif Reoliadau yn benodol yn y Memorandwm Esboniadol cysylltiedig[7].

---

[4] Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/42/contents

[5] Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2023/274/made/welsh

[6] Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023 https://senedd.cymru/media/dycnlfmx/sub-ld15719-w.pdf

[7] Memorandwm Esboniadol Rheoliadau'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd (Cymru) 2023 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023 https://senedd.cymru/media/1rajkkkv/sub-ld15718-em-w.pdf

12. Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn cynnwys rhai diwygiadau i Ran 7 o'r Prif Reoliadau, sy'n cynnwys darpariaethau sy'n rhoi manylion am y modd y bydd y trefniadau gwneud iawn yn gweithredu pan fydd corff GIG Cymru yn ymuno mewn trefniadau gyda chorff GIG yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, gan sicrhau cysondeb â diwygiadau a wneir i Ran 6 o'r Prif Reoliadau.

13. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r ddwy weinyddiaeth ddatganoledig arall a Llywodraeth y DU ynglŷn â'r newidiadau hyn i'r rheoliadau.

14. Roedd y Prif Reoliadau yn sail i'r broses yng Nghymru a elwid gynt yn broses Gweithio i Wella (Putting Things Right yn Saesneg). Fodd bynnag, cafwyd beirniadaeth sylweddol o'r enw drwy'r broses ymgynghori a'r holl weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan awgrymu, er mai'r bwriad oedd 'rhoi pethau'n iawn', nad oedd hyn yn taro'r nodyn cywir i bobl a oedd wedi cael eu niweidio'n sylweddol neu wedi dioddef profedigaeth. Disgrifiodd teuluoedd mewn profedigaeth yr enw fel un ansensitif, gan arwain at nifer sylweddol o randdeiliaid yn gofyn am ei newid.

15. O ganlyniad, bydd Llywodraeth Cymru nawr yn cyfeirio at y broses hon fel "Gwrando ar Bobl: proses GIG Cymru ar gyfer Pryderon, Cwynion a Gwneud Iawn" i bwysleisio pwysigrwydd rhoi pobl wrth wraidd y broses drwy wrando arnynt o'r cychwyn cyntaf.

16. Y nod yw gwella proses GIG Cymru ar gyfer pryderon, cwynion a gwneud iawn drwy ei gwneud yn fwy ymatebol, effeithiol ac amserol a sicrhau ei bod yn canolbwyntio mwy ar y claf.

17. Nodau newydd y broses Gwrando ar Bobl fydd:
- Ehangu a gwella darpariaeth gofal drwy wrando a chymryd camau
- Hyrwyddo diwylliant agored a theg
- Gwella tryloywder ac ymddiriedaeth
- Atal niwed yn y dyfodol
- Cefnogi datblygiad a dysgu staff
- Cyflawni dyletswyddau cyfreithiol a safonau moesegol

18. O dan y rheoliadau diwygiedig, dyletswydd a chyfrifoldeb y GIG yw gwrando a gweithredu ar bryderon a godir, ymchwilio iddynt ac adrodd yn ôl arnynt, a sicrhau bod camau effeithiol, sy'n seiliedig ar y gwersi a ddysgir, ar waith i atal y pryderon hyn rhag digwydd eto. Cyflawnir hyn drwy lynu wrth y Prif Reoliadau diwygiedig, y canllawiau wedi'u diweddaru a'r deunyddiau ategol.

19. Bwriad y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau diwygio yw:

- Rhoi cleifion wrth wraidd y broses
- Gwella'r ffocws ar gyfathrebu tosturiol sy'n canolbwyntio ar y claf
- Gwella'r broses Cwynion, Digwyddiadau a Gwneud Iawn er mwyn iddi fod yn fwy cynhwysol ac amserol wrth ymateb
- Cynnwys darpariaeth i alluogi atal dros dro y weithdrefn datrys yn gynnar neu ymchwiliad o dan y Prif Reoliadau wrth aros am ganlyniad ymholiad diogelu, ymchwiliad troseddol neu achos troseddol
- Diweddaru'r gofynion o ran cadw cofnodion, gan gynnwys, mewn perthynas â phenderfyniadau penodol, nad oes angen cyngor meddygol annibynnol o dan amgylchiadau penodedig

20. Yn ogystal â'r diwygiadau i'r rheoliadau, mae'r rhaglen waith hefyd yn cynnwys ailysgrifennu'r canllawiau yn llawn i ddarparu set o safonau sy'n amlinellu'n glir, i'r rhai sy'n codi cwyn neu sy'n destun pryder ynghylch digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch claf, yr hyn y gallant ei ddisgwyl o'r broses newydd a'r hyn y mae ganddynt hawl iddo o dan y rheoliadau diwygiedig. Yn ogystal, gan fod y canllawiau yn benodol ar gyfer cleifion, eu teuluoedd a'u heiriolwyr, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi canllawiau technegol i'r GIG.

21. Bydd y canllawiau diwygiedig yn cynnwys y broses Gwrando ar Bobl newydd i ddilyn model Gwrando a Gweithredu (**cam 1**), Ymchwilio, Adrodd a Dysgu (**cam 2**). Bydd y canllawiau newydd yn darparu gwybodaeth gliriach am y broses gwneud iawn a byddant hefyd yn darparu gwelliannau o ran yr hyn y gall plant a phobl ifanc ei ddisgwyl o'r broses a sut y gallant sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.




22. ***Ffigur 1 Y dull Gwrando ar Bobl diwygiedig***

23. Y nod yw sicrhau bod ymchwiliad cymesur yn cael ei gynnal pan fydd pryder yn cael ei leisio neu gŵyn yn cael ei gwneud neu pan fydd

digwyddiad wedi digwydd, a bod gwersi'n cael eu dysgu pan fyddant wedi'u nodi. Dylid rhannu gwybodaeth am y materion a'r problemau â'r claf a, ble bynnag a phryd bynnag y bo'n bosibl, dylid cywiro pethau sydd wedi mynd o chwith ar unwaith.

**Ymgynghori**

24. Cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, cynlluniwyd sawl sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda chymorth Llais. Llywiodd y sesiynau hyn a sesiynau eraill y cysyniadau polisi cychwynnol a'r atebion i faterion sy'n cael eu codi am y broses Gwrando ar Bobl bresennol.

25. Yna, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y newidiadau arfaethedig, a ddaeth i ben ar 6 Mai 2024. Yn dilyn ceisiadau gan randdeiliaid, estynnwyd y cyfnod ymgynghori tan 10 Mai 2024. Cafodd yr ymgynghoriad 213 o ymatebion gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y GIG a'r trydydd sector ac aelodau o'r cyhoedd.

26. Er mwyn sicrhau mwy o fanwl gywirdeb gwyddonol yn y broses dadansoddi data, comisiynwyd y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd (Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) i gynnal y gwaith dadansoddi ansoddol a meintiol yn annibynnol ac yn wrthrychol.

27. Cafwyd 213 o ymatebion mewn ymateb i'r ymgynghoriad, o boblogaeth o 3,132,000 yng Nghymru[8]. Golygodd hyn fod 2,393 o ymatebion naratif i'w dadansoddi. Cynhaliwyd y dadansoddiad o'r ymatebion hyn gyda lefel hyder o 95%, sy'n fesur ystadegol sy'n dangos pa mor agos y mae ein hamcangyfrifon sampl yn adlewyrchu cyfran y cytundeb yn y boblogaeth gyfan[9].

28. Roedd yr wybodaeth hon yn hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar yr ymatebion a'r data a ddadansoddwyd. Mae cefnogaeth y cyhoedd yn seiliedig ar faint y sampl a'r ymatebion ar gyfer y newidiadau polisi yn debygol o fod rhwng 74.63% ac 85.37%.

29. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod lwfans ansicrwydd o 7%. Mae hyn yn golygu y gallai'r gwerth gwirioneddol fod 7% yn uwch neu'n is na'n hamcangyfrifon. Mae'r lwfans ansicrwydd hwn yn gymharol fach; byddai dyluniad arolwg da yn ceisio cyflawni cyfradd o rhwng 4% ac 8%. I gloi, mae'r ymatebion a gawsom yn gynrychiolaeth gref a chywir o farn dinasyddion Cymru a sefydliadau sy'n ymwneud ag eiriolaeth a gofal yng Nghymru.

---

[8] Population estimates for the UK, England, Wales, Scotland, and Northern Ireland: mid-2022: Population estimates for the UK, England, Wales, Scotland, and Northern Ireland - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

[9] Y cyfwng hyder yw (0.7463) i (0.8537). Mae'r cyfwng hwn yn dangos eich bod yn 95% hyderus bod y gyfran wirioneddol o ymatebion cadarnhaol yn y boblogaeth gyfan rhwng 74.63% ac 85.37%.

30. Yn ogystal, rhoddodd 133 o ymatebwyr o'u hamser yn ystod yr ymgynghoriad i fyfyrio ar eu profiadau o godi cwynion yn ymwneud â'u gofal neu ofal rhywun sy'n agos atynt a rhannu’r profiadau hynny - profiadau poenus yn aml ac weithiau’n anodd. Dysgwyd llawer a chafwyd darlun go iawn drwy'r profiadau cyffredin hyn o faint o newid sydd ei angen yn ein system gwyno. Mae hyn, ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad, gweithdai rhanddeiliaid, yr adolygiad blaenorol (Adolygiad Evans 2014) o Gweithio i Wella, ymchwiliadau diweddar a gwersi o'r Alban a Lloegr, wedi helpu i ffurfio'r dystiolaeth i ddod i'r casgliadau ar yr hyn y mae angen i ni ei newid yma yng Nghymru.

31. Roedd yr adborth i'r ymgynghoriad yn glir nad yw'r broses bresennol, yn ei dyluniad nac yn ei gweithrediad, yn gweithio i lawer iawn o'r rhai sydd â rheswm dros wneud cwyn.

32. Mae oedi hir ac ymchwiliadau hirfaith yn cael eu cymhlethu gan system ddryslyd ac anodd ei llywio. Mae llawer o ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael eu siomi ac ar goll yn y system, ac mae'n rhaid i hyn newid. Mae'n amlwg bod nifer y cwynion yn y system yn ffactor ac mae cleifion a'r rhai sy'n gwneud cwynion ar ran rhywun arall yn nodi nad yw eu pryderon penodol a godir yn y gŵyn yn aml yn cael eu hateb yn llawn nac yn glir neu i'w boddhad.

33. Yn hytrach na thryloywder a gonestrwydd gydag atebolrwydd clir am bethau sydd heb fynd yn iawn, profiad rhai achwynwyr o'r sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yw agwedd amddiffynnol a diffyg gonestrwydd a chelu ffeithiau. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn tynnu sylw at ddatgysylltiad rhwng yr hyn y mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ei wneud a'r datrysiad y mae’r achwynydd yn gofyn amdano.

34. Cyhoeddwyd y crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad cyhoeddus ar 4 Rhagfyr 2024[10].

35. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi llywio'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud nawr, ac ar ôl cwblhau'r gwaith o ddadansoddi'r ymgynghoriad gwnaed sawl newid i'r diwygiadau gwreiddiol arfaethedig a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

36. Er mwyn cael rhagor o farn arbenigol, ffurfiodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys arweinwyr y GIG, yn eu plith cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Gweithredol, Penaethiaid Profiad y Claf, Penaethiaid Gwasanaethau Cwynion a Gwneud Iawn a'r rhai sy'n gyfrifol

[10] Adroddiad ymatebion i’r ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau arfaethedig i'r Broses Gweithio i Wella [Newidiadau arfaethedig i’r broses Gweithio i Wella | LLYW.CYMRU]

am ddysgu o ddigwyddiadau a chwynion. Roedd cynrychiolwyr hefyd o Berfformiad a Gwella GIG Cymru, Cronfa Risg Cymru, System Rheoli Cwynion Unwaith i Gymru, Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg ac Addysg Ddigidol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Llais a swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

37. Bu'r grŵp hwn o gymorth i Lywodraeth Cymru drwy ddarparu cyngor arbenigol a data rheoli a alluogodd y Llywodraeth i lunio cyfeiriad polisi clir a dod i benderfyniadau wrth ddehongli'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Bu'r grŵp hefyd o gymorth drwy awgrymu diwygiadau i'r rheoliadau a diwygiadau i'r canllawiau sy'n cefnogi'r broses newydd a'r rheoliadau diwygiedig. Mae'r grŵp wedi bod yn allweddol wrth ddarparu persbectif hanfodol y GIG a'r claf.

38. Er mwyn ehangu dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r materion allweddol, effaith y newidiadau arfaethedig, a'r heriau y gellid eu profi, ceisiwyd barn a chyngor gan randdeiliaid eraill a grwpiau cymheiriaid gweithredol hefyd.

39. **Mae'r Rheoliadau diwygio yn diwygio'r Prif Reoliadau fel a ganlyn:**

40. *Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 2 o’r Prif Reoliadau (dehongli), gan fewnosod diffiniadau newydd yn y ddarpariaeth honno.*

41. Mae'n diffinio'r "Cyfnod Datrys yn Gynnar" a'r "Weithdrefn Datrys yn Gynnar". Er bod y cyfnod datrys yn gynnar yn bodoli yn y rheoliadau blaenorol, dim ond fel eithriad (rheoliad 14) y cyfeiriwyd ato'n benodol ac nid oedd diffiniad na gweithdrefn benodedig ynghlwm wrtho. Yn y Rheoliadau diwygio, mae'r amserlen ar gyfer y cyfnod datrys yn gynnar yn cael ei hestyn i 10 niwrnod gwaith er mwyn galluogi mwy o achosion i gael eu datrys yn gynharach yn y broses.

42. *Mae rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 3 o’r Prif Reoliadau (egwyddorion cyffredinol ar gyfer trin ac ymchwilio i bryderon), er mwyn cynnwys darpariaeth i berson sy’n hysbysu pryder gael gwybod yn rheolaidd am gynnydd ac amserlenni, a darpariaeth ynghylch gofynion cyfathrebu.*

43. Roedd yn glir o'r ymgynghoriad nad oedd y rhai sy'n codi pryderon yn aml yn cael gwybod yn rheolaidd am gynnydd. Adroddodd yr ymgynghoriad dro ar ôl tro fod amserlenni wedi'u methu, ac nad oedd gofynion cyfathrebu pobl yn cael eu hystyried neu nad oedd eu dymuniadau a'r dull cyfathrebu a ffefrid ganddynt yn cael eu dilyn yn ddibynadwy. Mae hyn yn unol â'r safonau newydd o ran hygyrchedd a'r Gymraeg a lleihau annhegwch mewn mynediad at ofal iechyd. Yn ogystal, dangosodd adborth clir drwy weithdai a gynhaliwyd gyda Llais fod deunyddiau cyfathrebu ysgrifenedig yn aml yn cynnwys termau cyfreithiol a meddygol cymhleth heb unrhyw esboniad.

44. *Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 11 o'r Prif Reoliadau (hysbysu pryderon) er mwyn dileu croesgyfeiriad at ddarpariaeth a hepgorir gan y Rheoliadau hyn.*

45. Mae'r diwygiad hwn yn gysylltiedig â'r diwygiadau a wnaed i reoliad 14 o'r Prif Reoliadau gan reoliad 7 o'r Rheoliadau diwygio (h.y. hepgor rheoliad 14(1)(f) a mewnosod rheoliad 14(5)).

46. *Mae rheoliad 7 yn diwygio rheoliad 14 o’r Prif Reoliadau (materion a phryderon a eithrir rhag eu hystyried o dan y trefniadau) i ychwanegu eithriad rhag cwmpas y Prif Reoliadau pan fo’r Corff Cyfrifol yn ystyried bod y pryder yn flinderus neu’n wacsaw, ac i ddarparu bod pryderon a ddatrysir drwy’r weithdrefn datrys yn gynnar wedi'u heithrio rhag cwmpas rheoliadau penodedig.*

47. Dangosodd rhanddeiliaid y GIG fod rhai enghreifftiau, er yn brin, o bryderon blinderus yn cael eu codi. Roedd adroddiadau hefyd o ffocws penodol ar aelodau o fwrdd iechyd, a oedd yn peri pryder. Gan nad oes darpariaeth bresennol yn y Prif Reoliadau i ganiatáu eithrio pryderon y mae'r Corff Cyfrifol yn ystyried eu bod yn flinderus neu’n wacsaw, cynigir diwygiad er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd canllawiau penodol i gefnogi'r agwedd hon, a fydd yn argymell bod cyrff yn cysylltu â'r heddlu neu dimau cyfreithiol am gyngor (fel y bo'n briodol) pan fo ganddynt bryderon ynghylch ymddygiad achwynydd.

48. Yn ogystal, yn y diwygiadau mewn perthynas â'r weithdrefn datrys yn gynnar, roedd diwygiad yn ofynnol i'r eithriad, sef pan fydd y weithdrefn honno'n briodol ac yn llwyddiannus wrth ddatrys y mater, na fydd angen i gorff GIG Cymru barhau i ymchwilio ac asesu atebolrwydd cymwys.

49. *Mae rheoliad 8 yn diwygio rheoliad 17 o’r Prif Reoliadau (pryderon sy’n ymwneud â mwy nag un corff cyfrifol) i ddiwygio’r amserlenni ar gyfer ceisio cydsyniad, gan berson sy’n hysbysu pryder, i hysbysu’r cyrff cyfrifol eraill sy’n gysylltiedig, a’r amserlen ar gyfer rhoi’r hysbysiad hwnnw.*

50. Mae'r diwygiad hwn i ddarparu 5 niwrnod gwaith i gyrff cyfrifol geisio cydsyniad i hysbysu cyrff cyfrifol eraill yn alinio'r Prif Reoliadau â chyfnod hysbysu'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae'r diwygiad mewn perthynas â hysbysu'r cyrff cyfrifol eraill dim hwyrach na 2 ddiwrnod gwaith ar ôl i'r cydsyniad hwnnw ddod i law yn sicrhau iaith gyson o fewn y Prif Reoliadau mewn perthynas â phennu amserlenni er eglurder.

51. *Mae rheoliadau 9 a 10 yn diwygio rheoliadau 19 (camau sydd i’w cymryd pan hysbysir pryder i Fwrdd Iechyd Lleol ynghylch gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwr gofal sylfaenol) ac 20 (camau sydd i’w cymryd pan hysbysir pryder i Fwrdd Iechyd Lleol gan ddarparwr gofal sylfaenol) o’r Prif Reoliadau, yn y drefn honno. Mae’r diwygiadau yn pennu o dan ba*

*amgylchiadau y mae darparwyr gofal sylfaenol, ac nid y Bwrdd Iechyd Lleol, i geisio datrys pryder drwy'r weithdrefn datrys yn gynnar.*

52. Os bydd y person sy'n codi'r pryder yn agored i geisio ei ddatrys drwy'r weithdrefn datrys yn gynnar, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys, ystyrir mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy'r darparwr gofal sylfaenol sy'n gyfrifol am y gofal (e.e.) practis y claf ei hun. Dangosodd y dadansoddiad o'r data, a ddarparwyd drwy'r cynllun Indemniad Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol yng Nghymru, yr ymdriniwyd â thros 95% o'r pryderon a godwyd gyda phractisau meddygon teulu yn llwyddiannus gan ddefnyddio dull datrys yn gynnar.

53. *Mae rheoliad 11 yn diwygio rheoliad 22 o'r Prif Reoliadau (y weithdrefn cyn ymchwilio) i ychwanegu materion pellach i'r corff cyfrifol gynnig eu trafod â'r person sy'n hysbysu'r pryder, a gofynion pellach pan fo trafodaeth o'r fath yn digwydd, gan gynnwys gofyniad i gadw cofnodion o gynigion i drafod o dan y ddarpariaeth honno.*

54. Mae'r rheoliad hwn yn amlinellu'r drafodaeth wrando gan ddarparu, er enghraifft, gyfle i'r person sy'n codi'r pryder fynegi'r canlyniad y byddai'n dymuno ei gael, ac i'r corff cyfrifol geisio ei gydsyniad i roi cynnig ar y weithdrefn datrys yn gynnar, pan ystyrir bod hynny'n briodol.

55. Yn ogystal, mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r drafodaeth fod drwy ddull cyfathrebu uniongyrchol (e.e. galwad ffôn, cyfathrebu clyweledol neu gyfarfod wyneb yn wyneb). Wrth drefnu trafodaethau, pan gaiff ei hysbysu o'r angen am wasanaethau eiriolaeth a chymorth, rhaid i'r corff cyfrifol ystyried yr angen i sicrhau bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu yn y drafodaeth honno. Rhaid i'r corff cyfrifol wneud cofnod o'r cynnig a chynnwys y drafodaeth a'i chanlyniad. Roedd yn amlwg o'r sesiynau ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid fod pobl yn teimlo nad oedd eraill yn "gwrando arnynt" nac yn deall eu pryder yn ddigonol. Adroddwyd hefyd nad oedd y ffocws ar yr atebion i'w cwestiynau nac ar y canlyniad yr oeddent yn dymuno ei gael.

56. *Mae rheoliad 12 yn mewnosod rheoliad 22A yn y Prif Reoliadau, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch y cyfnod datrys yn gynnar a'r weithdrefn datrys yn gynnar.*

57. Mae'n amlinellu'r "Cyfnod Datrys yn Gynnar" a'r "Weithdrefn Datrys yn Gynnar". Er bod y cyfnod datrys yn gynnar yn bodoli yn y rheoliadau blaenorol, dim ond fel eithriad (rheoliad 14) y cyfeiriwyd ato'n benodol ac nid oedd diffiniad na gweithdrefn benodedig ynghlwm wrtho.

58. *Mae rheoliad 13 yn mewnosod rheoliad 24A yn y Prif Reoliadau, sy'n gwneud darpariaeth i alluogi atal dros dro y weithdrefn datrys yn gynnar neu ymchwiliad wrth aros am ganlyniad ymholiad diogelu, ymchwiliad troseddol neu achos troseddol.*

59. Mae'r rheoliad newydd hwn yn darparu ar gyfer atal dros dro y weithdrefn datrys yn gynnar neu'r cam ymchwilio, os bydd ymholiad diogelu, ymchwiliad troseddol neu achos troseddol, tan ar ôl iddo ddod i ben neu y penderfynir arno. Mae hyn er mwyn rhoi cyfle i benderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau i ddiogelu lles plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg. Bydd hyn hefyd yn osgoi unrhyw achos o ragfarnu unrhyw ymchwiliad troseddol, achos troseddol neu erlyniad troseddol. Mae'r opsiwn i oedi'r ddyletswydd i ymchwilio o dan y rheoliadau wedi bod ar goll, ac mae'r rheoliadau bellach yn adlewyrchu'n fwy cywir y ddeddfwriaeth a'r arferion presennol o ran diogelu.

60. *Mae rheoliad 14 yn diwygio rheoliad 26 o'r Prif Reoliadau (ymateb i ymchwiliad o dan reoliad 23 pan benderfynir bod, neu y gall fod, atebolrwydd cymwys) i ddiwygio'r amserlen ar gyfer darparu adroddiad interim ac adroddiad ar ymchwiliad o dan reoliad 31.*

61. Ar hyn o bryd, o dan y Prif Reoliadau, pan fo'r corff cyfrifol o'r farn bod, neu y gall fod, atebolrwydd cymwys, rhaid iddo ddarparu adroddiad interim o fewn 30 niwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn ddod i law, ond caniateir estyn y cyfnod hwn i 6 mis neu hwy os bydd amgylchiadau eithriadol yn gymwys. Yn ogystal, rhaid iddo ddarparu adroddiad ar ymchwiliad dim hwyrach na 12 mis ar ôl i'r pryderon ddod i law, a chaniateir estyn y cyfnod hwn ymhellach o dan amgylchiadau eithriadol. Yr adborth o'r ymgynghoriad a chan randdeiliaid oedd mai anaml iawn y byddai'r terfyn amser o 30 niwrnod gwaith yn cael ei fodloni, ac roedd llawer o bobl wedi profi cyfnodau hirfaith o 6 neu 12 mis. Felly, er bod y targed o 30 niwrnod gwaith yn cael ei gadw, mae'r Rheoliadau diwygio bellach yn anelu at ddod i gasgliadau ar bryderon yn fwy amserol, drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyfrifol hysbysu ynghylch yr amserlen debygol, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r person am y cynnydd, a phennu uchafswm cyfnod cwblhau o 120 niwrnod gwaith i alinio'r amserlen â'r polisi cenedlaethol ar adrodd am ddigwyddiadau a chymhwyso hyn i gwynion a digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion yn yr un modd. Mae hyn yn newid mawr i'r bwriad polisi gwreiddiol.

62. *Mae rheoliad 15 yn diwygio rheoliad 29 o'r Prif Reoliadau (iawn – digollediad ariannol) i gynyddu'r terfyn ar gyfer yr elfen o ddigollediad ariannol yn yr iawn at ddibenion Rhan 6.*

63. Ar hyn o bryd, mae'r Prif Reoliadau yn darparu terfyn o £25,000 ar gyfer yr elfen o ddigollediad ariannol yn yr iawn. Cwblhawyd dadansoddiad o'r data, gan gyfeirio at Ganllawiau'r Coleg Barnwrol ar iawndal ar gyfer anafiadau personol a chymharu'r symiau iawndal yn 2010 â'r rhai yn 2024. Dangosodd hyn chwyddiant dros amser o 45-47% ar gyfartaledd.

64. Er mwyn sicrhau nad yw achosion y bwriedir eu cynnwys yn y cynllun gwneud iawn yn cael eu heithrio gan eu bod uwchlaw'r terfyn o £25K ar gyfer iawndal, cynigir cynyddu'r terfyn uchaf i £50,000. Mae hyn hefyd yn cynnwys swm bach ar ben y 45-47% i ddiogelu yn erbyn chwyddiant pellach yn y dyfodol dros y blynyddoedd i ddod.

65. Aseswyd y cynnig hwn yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ac er bod cefnogaeth eang iddo, nodwyd bod angen rhai cafeatau. Enghraifft o'r rhain oedd cynnwys, yn anfwriadol, achosion cymhleth, achosion gwarchodedig, a'r rhai nad ydynt yn addas ar gyfer y cynllun gwneud iawn. Bydd canllawiau yn darparu cyngor pellach ar yr hyblygrwydd sy'n bodoli yn y rheoliadau presennol ar gyfer cyrff cyfrifol i benderfynu pa achosion a allai fod yn addas ar gyfer gwneud cynnig o iawn.

66. Mae potensial ar gyfer gostyngiad mewn achosion ymgyfreitha drwy gynyddu'r cyfle i'w cynnwys yng nghynllun gwneud iawn y GIG.

67. *Mae rheoliad 16 yn diwygio rheoliad 31 o’r Prif Reoliadau (adroddiad yr ymchwiliad) i gynnwys gofyniad i gorff GIG Cymru (fel y’i diffinnir yn rheoliad 2(1) o’r Prif Reoliadau) gynnig trafod adroddiad ar ymchwiliad, pan fo’r corff wedi darparu adroddiad, at ddibenion Rhan 6.*

68. Nododd adborth i'r ymgynghoriad nad oedd pobl sy'n ceisio iawn yn aml yn cael adroddiad manwl ar yr ymchwiliad a oedd wedi'i gynnal, nac yn cael cynnig y cyfle i drafod canlyniadau'r adroddiad hwnnw, drwy ddull cyfathrebu uniongyrchol, gyda'r swyddog cyfrifol. Bydd y rheoliad 31 diwygiedig yn cynnig y cyfle hwn.

69. *Mae rheoliad 17 yn diwygio rheoliad 33 o’r Prif Reoliadau (iawn – hysbysu ynghylch penderfyniad) gan leihau’r amserlen i gorff GIG Cymru hysbysu ynghylch penderfyniad at ddibenion Rhan 6.*

70. Ar hyn o bryd, mae'r Prif Reoliadau yn darparu amserlen o 12 mis i hysbysu ynghylch penderfyniad, gydag opsiwn i estyn hyn, yn ôl yr angen. Fel y sonnir ym mharagraff 60, gan fod yr amserlen ar gyfer darparu adroddiad ar ymchwiliad yn cael ei lleihau, mae angen diwygiad mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer hysbysu ynghylch penderfyniad er cysondeb (sydd bellach wedi'i lleihau i uchafswm o 120 niwrnod gwaith).

71. *Mae rheoliad 18 yn diwygio rheoliad 40 o’r Prif Reoliadau (ymateb i ymchwiliad o dan reoliad 39 pan fo corff GIG Cymru o’r farn bod, neu y gall fod, atebolrwydd cymwys) i ddiwygio’r amserlen ar gyfer darparu adroddiad interim ac adroddiad ar ymchwiliad o dan reoliad 46.*

72. Fel yr amlinellir ym mharagraff 61, roedd yn amlwg o adborth gan randdeiliaid yn yr ymgynghoriad fod yr amserlen ar gyfer darparu adroddiad terfynol yr ymchwiliad yn annerbyniol o hir, ac felly mae'r amserlen hon hefyd bellach wedi'i lleihau i uchafswm o 120 niwrnod gwaith. Mae'r diwygiad hwn yn alinio'r amserlenni diwygiedig o dan Ran 7 o'r Prif Reoliadau â'r amserlenni diwygiedig o dan Ran 6 a drafodir uchod. Mae hyn yn golygu bod y terfynau amser ar gyfer darparu'r adroddiad interim ac adroddiad terfynol yr ymchwiliad yn 120 niwrnod gwaith, oherwydd yn y mwyafrif o achosion, ychydig iawn o ddiwygiadau a wneir i'r adroddiad interim. Yn ogystal, mae hyn yn alinio'r amserlenni â'r polisi cenedlaethol ar adrodd am ddigwyddiadau.

73. *Mae rheoliad 19 yn diwygio rheoliad 44 o'r Prif Reoliadau (iawn – digolledidiad ariannol) i gynyddu'r terfyn ar gyfer yr elfen o ddigolledidiad ariannol yn yr iawn at ddibenion Rhan 7.*

74. Fel yr amlinellir ym mharagraff 62, gwneir y ddarpariaeth gyfatebol at ddibenion Rhan 7.

75. *Mae rheoliad 20 yn diwygio rheoliad 46 o'r Prif Reoliadau (adroddiad yr ymchwiliad) i gynnwys gofyniad i gorff GIG Cymru gynnig trafod adroddiad ar ymchwiliad, pan fo'r corff wedi darparu adroddiad, at ddibenion Rhan 7.*

76. Yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, roedd yn amlwg bod pobl yn aml yn cael adroddiadau ar ymchwiliadau a llythyrau a oedd yn cynnwys geiriad meddygol a chyfreithiol cymhleth a rhesymu cymhleth mewn perthynas ag atebolrwydd cymwys. Roedd yr adborth a gafwyd yn amlinellu bod pobl yn cael trafferth deall yr iaith ac yn gweld yr ymatebion hyn yn wrthwynebol o ran natur. Felly, yn debyg i'r esboniad a ddarperir ym mharagraff 67 uchod mewn perthynas â Rhan 6, gwneir y ddarpariaeth gyfatebol at ddibenion Rhan 7. Yn ogystal, mae cynnig i gyfarfod i esbonio cynnwys yr adroddiad ac ateb unrhyw gwestiynau a fydd yn gwella dealltwriaeth wedi'i gynnwys.

77. *Mae rheoliad 21 yn diwygio rheoliad 48 o'r Prif Reoliadau (iawn – hysbysu ynghylch penderfyniad) i leihau'r amserlen erbyn pryd y mae rhaid i gorff GIG Cymru hysbysu ynghylch penderfyniad at ddibenion Rhan 7.*

78. Yn debyg i'r esboniad a ddarperir ym mharagraff 69 uchod, gwneir y ddarpariaeth gyfatebol at ddibenion Rhan 7.

79. *Mae rheoliad 22 yn diwygio rheoliad 50 o'r Prif Reoliadau (monitro gweithrediad y trefniadau i ymdrin â phryderon) i ychwanegu gofynion newydd o ran cadw cofnodion ynghylch a wnaed cynnig o iawn, ac unrhyw benderfyniad nad oes angen cyngor meddygol annibynnol mewn perthynas â phryderon sy'n ymwneud â marwolaeth claf, neu niwed cymedrol neu ddifrifol iddo.*

80. Drwy gydol yr ymgynghoriad cyhoeddus ac mewn mwy nag un ohebiaeth ddilynol sydd wedi dod i law, ceir thema gyson sy'n tynnu sylw at bryderon gyda'r GIG yn ymchwilio i achosion amdano ei hun, pan fo niwed difrifol wedi digwydd. Mae llawer o'r rhain yn galw am gwblhau ymchwiliad annibynnol i ddarparu sicrwydd bod rhagfarn wedi'i dileu o ganfyddiadau ymchwiliad. Mae'r Prif Reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyfrifol roi sylw i'r mater a fydd angen cyngor meddygol annibynnol neu gyngor arall annibynnol ar y person sy'n ymchwilio i'r materion a godir gan y pryder. Roedd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus gynrychiolaeth ar y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a darparodd awgrym sydd wedi'i fabwysiadu fel diwygiad. Mae'r diwygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyfrifol, os byddant yn penderfynu nad oes

angen cyngor meddygol annibynnol, gofnodi'r rhesymau pam mewn perthynas â phryderon sy'n ymwneud â niwed cymedrol neu ddifrifol neu farwolaeth.

81. *Mae rheoliad 23 yn diwygio rheoliad 51 o'r Prif Reoliadau (yr adroddiad blynyddol) i'w gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol gynnwys adroddiadau blynyddol cyrff cyfrifol yn ei adroddiad blynyddol ei hun o dan amgylchiadau penodedig.*

82. Ar hyn o bryd, nid yw'r Prif Reoliadau yn cynnwys gofyniad i Fyrddau Iechyd Lleol gynnwys, yn eu hadroddiadau blynyddol eu hunain, gopïau o adroddiadau blynyddol cyrff cyfrifol eraill sydd wedi'u darparu iddynt. Mae'r diwygiad hwn yn sicrhau bod pob parti yn rhannu gwersi a data yn briodol.

83. *Mae rheoliad 24 yn cynnwys darpariaeth drosiannol i ddatgan nad yw'r Rheoliadau diwygio yn gymwys i unrhyw bryder a hysbyswyd yn unol â threfniadau a oedd yn eu lle o dan y Prif Reoliadau cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau diwygio i rym.*

84. Teimlwyd ei bod yn afresymol cymhwyso'r amserlenni a'r dyletswyddau newydd a geir yn y Rheoliadau diwygio i ddigwyddiadau a chwynion sydd eisoes dan ymchwiliad.

## *RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL*

## Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

1. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gwblhau ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2025 ("y Rheoliadau diwygio") ac mae'n dilyn isod.

2. Nid oes darpariaethau penodol yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 ("y prif Reoliadau"), nac yn y Rheoliadau diwygio, sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

**Costau gweinyddu**

3. Wrth roi'r Rheoliadau diwygio ar waith, mae nifer o gostau gweinyddu i Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â datblygu a chyhoeddi'r rheoliadau, canllawiau, deunyddiau ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar y dyletswyddau hynny. Yn ogystal, mae costau cyfle i'r GIG o ran rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant a'r costau gweithredu cychwynnol o fewn sefydliadau'r GIG i addasu i'r prosesau newydd. Daw'r Rheoliadau diwygio i rym ym mis Ebrill 2026 a bydd costau gweithredu / rhaglen yn parhau ym mlwyddyn ariannol 2026/27 ond mae llawer o'r rhain yn perthyn i Berfformiad a Gwella GIG Cymru ac i'r GIG yng Nghymru.

**Arbedion Cost**

4. Caiff egwyddorion 'Bod yn agored' eu datblygu ymhellach drwy gyflwyno newidiadau i'r broses cwynion a digwyddiadau yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar Wrando ar Bobl sydd wedi cael profiad gwael neu sydd wedi cael eu niweidio. Drwy roi pwyslais ar wrando gweithredol a dysgu o brofiadau unigolion, ynghyd â rhoi blaenoriaeth i ymdrin â materion allweddol a'u datrys yn gynnar, gellir gwella profiadau pobl a chynyddu ymddiriedaeth mewn darparwyr gofal iechyd. Mae hefyd yn gyfle i wneud arbedion cost sylweddol. Gall y dull hwn leihau nifer y cwynion a'r achosion o ymgyfreitha, a thrwy hynny atal digwyddiadau a allai arwain at niwed, er na fyddai hyn yn effaith uniongyrchol.

5. Roedd creu diwylliant o ddysgu a diwylliant agored yn y GIG yn rhan o adolygiad gan West, M a Coia, D (2019)[11]. Gwnaethant edrych ar fenter 'Just and Learning Culture' Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Gofal

[11] West, M., Coia, D., (2019) caring-for-doctors-caring-for-patients_pdf-80706341.pdf (gmc-uk.org)

Mersi a oedd yn ceisio creu amgylchedd lle’r oedd staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso i ddysgu pan nad yw pethau'n mynd yn ôl y disgwyl, yn hytrach na theimlo’u bod yn cael eu beio. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 75% yn nifer yr ymchwiliadau disgyblu ers 2016 a gostyngiad o 92% yn nifer y gwaharddiadau dros dro. Amcangyfrifodd yr Ymddiriedolaeth arbedion o £2.5 miliwn yn sgil gweithredu'r fenter rhwng 2017 a 2018 o ganlyniad i lefel uwch o gynhyrchiant, llai o gostau ôl-lenwi swyddi staff o ganlyniad i waharddiadau dros dro, llai o amser yn cynnal ymchwiliadau a chostau cyfreithiol a therfynu swyddi is.

6. Gallai ymdrechion i amcangyfrif yr effaith a'r arbedion o ran ymgyfreitha fod yn ddefnyddiol ond am nad oes llawer o ddata a gwaith ymchwil ar gael, dim ond canfyddiadau cyfyngedig y gellir eu llunio'n bendant. Fodd bynnag, mae asesiad o unrhyw gyfle i leihau achosion o ymgyfreitha yn y newidiadau hyn wedi'i gynnwys yn y RIA hwn.

**Costau Cydymffurfio:**

7. Bydd y gost o gydymffurfio â'r Rheoliadau yn syrthio i gyrff y GIG ar ffurf costau cyfle i gydymffurfio â'r dull gweithredu newydd ‘Gwrando ar Bobl’.

8. Mae cost cyfle i gyrff y GIG gynnig trafodaeth wrando wyneb yn wyneb er mwyn ceisio deall yn glir y pryder sy'n cael ei godi a'r datrysiad a ddymunir. Mae'r newid hwn yn fwy na hysbysiad bod cwyn wedi dod i law neu fod y digwyddiad wedi digwydd gan ei fod yn canolbwyntio ar wrando gweithredol yn ogystal â rhoi gwybodaeth allweddol i'r person a rhoi cyfle i ganolbwyntio ar sicrhau datrysiad cynnar wrth ymdrin â'r pryder. Yn ogystal, lle nad yw hynny'n bosibl neu'n realistig, mae cyfle i gyfleu amserlen realistig er mwyn ymchwilio i'r pryder mewn ffordd ystyriol a chymesur.

9. Mae'n anodd iawn amcangyfrif yr effaith debygol ar gyrff y GIG gan ei bod yn debygol bod cyfle i symud mwy o bryderon drwy'r broses datrys yn gynnar ac osgoi ymchwiliadau hirach a mwy cymhleth, a fyddai'n rhyddhau adnoddau oddi wrth dimau ymchwilio ac adnoddau rheoli. Nid yw prosesau ymchwilio hir a chymhleth yn briodol ym mhob achos nac yn cyd-fynd â'r datrysiad y mae'r person ei eisiau, ac felly maent yn ddiangen o gostus. At ddibenion yr asesiad effaith hwn, mae'r costau cyfle ar gyfer cydymffurfio wedi cael eu cyfrifo ar sail nifer y cwynion a'r digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Mae'r data a ddefnyddiwyd yn cynnwys ffynonellau data rheoli'r GIG a setiau data cyhoeddedig eraill.

**Manteision:**

10. Mae disgwyl i'r newidiadau y mae'r Rheoliadau diwygio yn eu gwneud i'r prif Reoliadau a'r canllawiau cysylltiedig arwain at ystod o fanteision, ond mae'n anodd mesur y rhain yn gywir am fod lefel uchel o amrywioldeb neu am nad oes digon o ddata ar gael. Nod y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yw rhoi cyfle i symud mwy o achosion i gam 1 datrys yn gynnar (Gwrando a Gweithredu).

11. Mae'r rhain o fudd i'r person ac i'r sefydliad, gan ddarparu camau ymatebol mwy amserol ac amser pwrpasol i wrando ar yr union broblem a chanolbwyntio ar ddatrysiad sy'n canolbwyntio ar y person. Os nad yw hynny'n bosibl neu'n briodol o ystyried natur y gŵyn neu'r digwyddiad diogelwch cleifion, bydd yr ymchwiliad cymesur[12][13][14] yn glir ac yn amserol a chaiff y person sy'n codi pryder ei gynnwys. Mae manteision ehangach a mwy strategol o fewn y system yn cynnwys gwelliannau cyffredinol i ansawdd rhyngweithiadau ac ymatebion. Drwy feithrin diwylliant o fod yn agored a thryloyw ym maes darpariaeth iechyd, rydym yn sicrhau lefel uwch o foddhad pan gaiff pryderon eu trin, neu pan gaiff gwersi eu dysgu. Mae'r dull hwn o weithredu hefyd yn rhoi pwyslais sylweddol o'r newydd ar atal niwed yn y dyfodol gan gefnogi'r Ddyletswydd Gonestrwydd a strategaeth Diogelwch Cleifion GIG Cymru.

**Tybiaethau:**

12. Drwy gydol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae amrywiaeth eang o ddata rheoli ac ystadegol academaidd, rheolaidd wedi cael eu defnyddio i asesu'r manteision a'r costau. Pan fo ansicrwydd, defnyddiwyd dull gofalus o gyfrifo amcangyfrifon costau. Mae hyn yn debygol o olygu y gallai'r costau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith fod wedi'u hamcangyfrif ar sail y data sydd ar gael. Mewn sawl lle, pan fo ansicrwydd, defnyddiwyd ystod o amrywiol gostau posibl, neu rhoddwyd y rhesymeg ynghylch pam na fyddai amrywiol gostau yn ystyrlon.

**Yr opsiynau:**

Opsiwn 1 – Gwneud dim byd arall. Parhau i weithio gyda'r rheoliadau a'r fframwaith presennol

---

[12] Sampson, P. et al. Systems-based models for investigating patient safety incidents BJA Education, Volume 21, Issue 8, 307 – 313

[13] Weaver S, Stewart K, Kay L. Systems-based investigation of patient safety incidents. Future Healthc J. 2021 Tach;8(3):e593-e597. doi: 10.7861/fhj.2021-0147

[14] NHS England (2024) Patient safety incident response framework and supporting guidance https://www.england.nhs.uk/publication/patient-safety-incident-response-framework-and-supporting-guidance/

Opsiwn 2 – Diwygio'r canllawiau a'r deunyddiau ategol yn unig.
Opsiwn 3 – Diwygio'r rheoliadau, y canllawiau a'r deunyddiau ategol presennol.

<u>Opsiwn 1 – Gwneud dim. Parhau i weithio gyda'r rheoliadau a'r fframwaith presennol</u>

**Disgrifiad:**

13. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'r prif Reoliadau na'r canllawiau yn cael eu hailwampio na'u hailddylunio. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod y gofynion i fod yn agored ac i ymchwilio i gwynion a digwyddiadau a nodir yn y prif Reoliadau (y broses ar gyfer rheoli cwynion yn y GIG yng Nghymru) yn parhau. Ni fyddai unrhyw effaith ar y diwygiadau a wnaed yn 2023 i'r prif Reoliadau er mwyn cyflwyno'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Byddai'r heriau i foderneiddio'r ffordd y caiff ymchwiliadau i gwynion a digwyddiadau diogelwch cleifion eu cynnal yn groes i'r prif Reoliadau yn parhau ac mae'n debygol iawn y byddai profiadau gwael pobl o godi pryder, cael eu clywed, derbyn atebion a chanfod datrysiad, yn parhau hefyd. Yn ogystal, ni fyddai cyfle i gynnwys mwy o achosion yn y cynllun gwneud iawn, a fyddai'n arwain at leihad posibl yn nifer yr achosion sifil.

**Costau:**

14. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth yr opsiwn hwn. Byddai'r darpariaethau ymgyfreitha parhaus ar gyfer y GIG yng Nghymru o dan drefniadau Cyfreithiol a Rhannu Risg y bartneriaeth cydwasanaethau yn parhau'n ddigyfnewid, ac ni fyddai cyllid yr ymrwymwyd iddo eisoes yn arwain at enillion ar fuddsoddiad. Yn ogystal, mae risg sylweddol o niwed i enw da o fewn y system ac ymhlith y cyhoedd, y mae pob un ohonynt yn awyddus i weld newid sylweddol ac yn disgwyl iddo ddigwydd, fel y dangosir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid a'r cyhoedd.

**Manteision:**

15. Ni fyddai gwneud dim yn arwain at unrhyw fanteision ychwanegol a byddai'r cyfle i adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes yn cael ei golli. Fodd bynnag, byddai'n lleihau'r baich newid a'r costau gweithredu i'r GIG ac ni fyddai unrhyw oblygiadau eraill o ran costau ar unwaith i Lywodraeth Cymru.

16. Drwy wneud dim, ni fyddai'r manteision o greu'r achos, yr awydd a'r momentwm dros newid yn cael eu gwireddu. Mae hyn yn cynnwys y sicrwydd y byddai hyn yn ei roi i ddefnyddwyr gwasanaethau'r GIG a staff sy'n dod i Gymru o rannau eraill o'r DU, y byddai cyrff y GIG yn

sicrhau ymateb agored, gonest a chefnogol i gwynion ac ymchwiliadau i ddigwyddiadau diogelwch cleifion pan fo rhywbeth yn mynd o'i le, pan fo pobl wedi'u niweidio neu pan fo pobl yn dweud eu bod wedi cael profiad gwael.

17. Felly, nid yw'r opsiwn hwn yn cyd-fynd â bwriad y polisi nac â'r ymrwymiadau blaenorol i ailwampio ac ailysgrifennu'r prif Reoliadau a moderneiddio'r trefniadau cwynion, digwyddiadau a gwneud iawn yng Nghymru.

Opsiwn 2 – Diwygio'r Canllawiau a'r deunyddiau ategol yn unig.

**Disgrifiad:**

18. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle i wella a moderneiddio'r canllawiau a'r broses ond byddai'n gyfyngedig i'r broses a nodir yn y prif Reoliadau gyda'r manteision ychwanegol o wella deunyddiau ategol, gan gynnwys set o ganllawiau sy'n fwy hygyrch ac yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn a deunyddiau sy'n cydymffurfio o ran hygyrchedd.

**Costau:**

19. Dylai fod gan gyrff y GIG, darparwyr gofal sylfaenol a darparwyr annibynnol drefniadau ar waith yn barod i fodloni'r gofynion presennol sy'n gymwys iddynt o dan y prif Reoliadau (ar gyfer y broses Gweithio i Wella fel yr arferid cyfeirio ati). Er mwyn i Gyrff Cyfrifol ddeall y newidiadau yn y canllawiau, bydd angen i sefydliadau wneud rhywfaint o waith asesu effaith, ni waeth pa mor gyfyngedig y gallai hynny fod o gofio nad oes newid rheoliadol a sicrhau bod eu staff yn cael hyfforddiant digonol i ddeall y canllawiau newydd yn llawn. Yn ogystal, byddai'r holl gostau suddedig yr ymrwymwyd iddynt eisoes i greu diwygiadau'r rheoliadau drafft, ynghyd â dwy flynedd o waith rhaglen, yn cael eu gwastraffu.

20. Y costau cyfle ychwanegol i sefydliadau'r GIG a phob darparwr gofal sylfaenol fyddai'r costau hyfforddiant ac addysg a chostau'r deunyddiau ategol i Lywodraeth Cymru a chaiff y rhain eu hamlinellu'n llawn yn opsiwn 3. Mewn llawer o sefydliadau'r GIG, mae newid eisoes ar y gweill i baratoi ar gyfer y newidiadau. Mae ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid wedi golygu bod y GIG wedi cael yr holl wybodaeth a'i bod wedi cael ei chynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r ffyrdd newydd o weithio o dan y diwygiadau arfaethedig. Mae hefyd wedi bod yn treialu ac yn cyflwyno newidiadau'n araf i baratoi ar gyfer rhoi'r ffyrdd newydd o weithio ar

waith yn effeithiol. Byddai rhai costau cysylltiedig ynghlwm wrth beidio â bwrw ymlaen â hyn.

**Manteision:**

21. Mae hwn yn llai costus nag opsiwn 3, o ran costau cyfle i Gyrff Cyfrifol, gan na fyddai'n cynnwys y cynnydd yn nifer yr achosion y gellir eu cynnwys yn rhan o'r trefniadau gwneud iawn neu'r drafodaeth wrando newydd. Mae hefyd yn llai costus i Lywodraeth Cymru gan ei fod yn lleihau'r angen am ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ac er bod angen datblygu'r canllawiau a'r deunyddiau, mae'n lleihau'r baich rheoliadol neu'r gwaith deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'n colli'r cyfle i foderneiddio'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r broses a'r gwelliannau o ran amseroldeb a'r newid i'r dull gweithredu a roddir ar waith drwy ddiwygio rheoliadol. Drwy ryddhau amser rhanddeiliaid a pholisi o ran y newidiadau rheoliadol a'u goblygiadau, briffiau technegol ac asesiadau effaith a chynllunio gweithredu, byddai modd ailddyrannu'r adnoddau hynny i ddatblygu'r canllawiau a'r deunyddiau. Dylid nodi, fodd bynnag, bod llawer o'r costau hyn eisoes wedi'u hymrwymo a'u cwblhau neu eu paratoi.

<u>Opsiwn 3 – Diwygio'r prif Reoliadau a'r Canllawiau a'r deunyddiau ategol</u>.

**Disgrifiad:**

22. Nod yr opsiwn hwn yw ailwampio'r prif Reoliadau er mwyn bodloni bwriadau'r polisi a mynd i'r afael â'r materion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ac wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd. Caiff Diwygiadau 2025 a'u heffeithiau eu hesbonio'n fanylach yn y Memorandwm Esboniadol.

23. Mae Diwygiadau 2025 yn gwneud gwelliannau sylweddol i'r prif Reoliadau. Yn ogystal, caiff llawer o'r newidiadau arfaethedig eu trafod yn y canllawiau diwygiedig. Dylid nodi bod y prif Reoliadau yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw drefniadau a sefydlir o dan y rheoliadau ar gyfer trin ac ymchwilio i bryderon fod yn rhai a fydd yn sicrhau y cymerir i ystyriaeth unrhyw ganllawiau a ddyroddir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru (rheoliad 3(1)(ng)).

**Costau:**

24. Er mwyn rhoi'r diwygiadau ar waith yn ymarferol yn llwyddiannus, mae angen gweithredu mewn pum maes allweddol:

i. ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus;
ii. Ymwybyddiaeth a hyfforddiant i gyrff cyfrifol;
iii. datblygu canllawiau a deunyddiau ategol.
iv. adolygu, drafftio a chyfieithu rheoliadau.
v. costau gweithredu a chostau gweithredol parhaus

**Ymwybyddiaeth, hyfforddiant a chymorth**

i. ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus:

25. Roedd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig yn adlewyrchu pwysigrwydd rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Daeth i'r amlwg mewn llawer o weithdai a sesiynau ymgysylltu a gohebiaeth y byddai'r cyhoedd yn croesawu'r angen am y diwygiadau hyn yn fawr. Byddai ymgyrch yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o’r broses ‘Gwrando ar Bobl’, gan rymuso unigolion i ofyn cwestiynau am y gofal a'r gwasanaethau y maent yn eu cael, gan wybod y gallent ddisgwyl gonestrwydd a thryloywder pe bai angen iddynt godi pryderon neu gwestiynau os oeddent yn anfodlon ar y profiad gofal roeddent wedi ei gael neu lle gallai niwed fod wedi digwydd. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol yn fwriadol iawn â'r fframwaith bod yn agored a'r Ddyletswydd Gonestrwydd yng Nghymru.

26. Rhagwelir y byddai'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus yn cynnwys dwy elfen, sef ymgyrch gyhoeddusrwydd a thaflen a deunyddiau gwybodaeth i'r cyhoedd neu ddatrysiad digidol tebyg. Mae'n debygol y byddai'r ymgyrch gyhoeddusrwydd yn cynnwys cysylltiadau cyhoeddus, y cyfryngau cymdeithasol a gweithio gyda chyrff perthnasol.

27. I greu taflen wybodaeth i'r cyhoedd, byddai angen llunio deunyddiau copi caled ac electronig i'w harddangos yn lleoliadau'r GIG, ynghyd â phresenoldeb ar-lein ar wefannau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, darparwyr gwasanaethau'r GIG, Iechyd yng Nghymru (gwefan swyddogol y GIG) a Llais (corff llais y dinesydd). I gyflawni hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio taflenni presennol Gweithio i Wella i gynnwys y newidiadau newydd ac yn datblygu deunyddiau i blant a phobl ifanc yn ogystal ag ystyried deunydd hygyrch BSL a sicrhau bod deunyddiau yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac 16 o ieithoedd allweddol eraill.

28. Gyda chymorth gan dîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru, caiff y deunyddiau hyn eu hyrwyddo'n gyhoeddus yn effeithlon drwy sianelau cymdeithasol a digidol Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill a mis Mai 2026.

29. Tabl 1 – Datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus

| Gweithgaredd | Gradd | Amser | Cost |
|---|---|---|---|
| Ymgyrch gyhoeddusrwydd | - | - | £11,000 |
| Cyfieithu i'r Gymraeg a phrawfddarllen | Band Rheoli 2 | 0.5 diwrnod | £200 |
| Dylunio a chysodi(ii) | Band Rheoli 3 | 5 awr | £200 |
| Cyfanswm | | | £11,400 |

(i) Yn debyg i gostau'r ymgyrch cyfathrebu cyhoeddus sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r elfen triniaethau arbennig o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, wedi'u huwchraddio yn unol â chwyddiant.
(ii) Yn seiliedig ar gyfieithu, dylunio a chysodi taflen Gweithio i Wella, wedi'u huwchraddio yn unol â chwyddiant ar gyfer 2025 – tua 600 o eiriau.
(iii) Yn seiliedig ar gostau ailddylunio taflen Gweithio i Wella yn 2017, wedi'u huwchraddio yn ôl chwyddiant, a oedd yn cynnwys llunio fersiynau hawdd eu deall a fersiynau i blant.
(iv) Yn seiliedig ar gostau dosbarthu 100,000 o daflenni Gweithio i Wella yn 2017, wedi'u huwchraddio yn unol â chwyddiant ar gyfer 2025.

ii. **Datblygu ymwybyddiaeth a hyfforddiant sefydliadol**:

30. Mae addysg a hyfforddiant yn allweddol er mwyn annog y newidiadau a'u gwreiddio yn y ffordd y mae staff y GIG yn ymateb i bobl pan fydd cwyn neu ddigwyddiad yn digwydd neu'n cael eu codi. I gefnogi hyn, mae'n debygol y bydd angen cyfuniad o hyfforddiant a chyfleoedd dysgu gwahanol ar gyfer BILlau, Ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol:

31. **Hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i'r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG:** Bydd Gwrando ar Bobl: proses GIG Cymru ar gyfer cwynion, digwyddiadau a gwneud iawn yn cynnwys lefel sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth o ran y camau cychwynnol a'r broses gyffredinol ar gyfer holl staff y GIG a bydd yn helpu i greu diwylliant agored lle mae staff yn teimlo y gallant wrando a gweithredu pan fydd unigolyn yn codi pryderon am y gofal y mae wedi'i gael. Mae'r fideo hwn tua 20 munud o hyd ac felly rhagdybir na ellir ei wylio fel rhan o amser hyfforddiant presennol ac mae'n creu costau cyfle o ran amser staff (mae'r gost cyfle sy'n gysylltiedig â'r hyfforddiant i staff wedi'i chynnwys yn Nhabl 4 isod).

32. Tabl 2 – datblygu modiwlau e-ddysgu ar gyfer hyfforddiant:

| Gweithgaredd | Gradd | Amser | Cost |
|---|---|---|---|
| Creu modiwl ymwybyddiaeth e-ddysgu sylfaenol | Band Rheoli 2 | 9 diwrnod | £2100 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfieithu'r deunydd e-ddysgu (i) | Band Rheoli 2 | 9 diwrnod | £2100 |
| Creu modiwl hyfforddiant e-ddysgu uwch | Band Rheoli 2 | 18 diwrnod | £4200 |
| Cyfieithu'r deunydd e-ddysgu (i) | Band Rheoli 2 | 9 diwrnod | £2100 |
| | | | £10,500 |

(i) Yn seiliedig ar amcangyfrif o ddwywaith cyfrif geiriau modiwl 'Gweithio i Wella' blaenorol y GIG (amcangyfrif o 18,000 o eiriau).

33. Yn unol â'r uchod, mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi cadarnhau na fyddai cost i Lywodraeth Cymru am lanlwytho a lletya'r modiwlau e-ddysguar-lein. Os penderfynir y byddai darparwr e-ddysgu amgen yn fwy addas, byddai angen cynnal ymarfer manyleb a thendro.

34. **Hyfforddiant uwch i staff arbenigol a'r tîm pryderon:** Gan adeiladu ar yr hyfforddiant ymwybyddiaeth cyffredinol uchod, bydd angen i unigolion allweddol ym mhob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth, Awdurdod Iechyd Arbennig a phractis gofal sylfaenol gael hyfforddiant manylach i feithrin yr wybodaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt pan ddaw'r broses newydd i rym. Bydd y rhain yn adeiladu ar ddealltwriaeth o'r camau sydd dan sylw ynghyd â sgiliau allweddol ym maes cyfathrebu tosturiol a gwrando'n weithredol ar bobl sydd â phryderon, ac yn grymuso staff i weithredu er mwyn datrys materion yn gyflym yn ogystal â'r opsiynau ehangach sydd ar gael o ran dulliau ymchwilio cymesur y gellir eu mabwysiadu ar gyfer digwyddiadau diogelwch cleifion.

35. Mae adnodd addysg a hyfforddiant rhyngweithiol yn cael ei baratoi ar gyfer timau arbenigol a rolau arwain gan adeiladu ar Gwrando ar Bobl a sicrhau eu bod wrth wraidd y broses. Amcangyfrifir y bydd yr hyfforddiant hwn yn para rhwng 60 a 120 munud ac felly caiff ei gyfrifo fel cost cyfle am amser staff o fewn y GIG.

36. Amcangyfrifir y byddai'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu i oddeutu 49 o unigolion (yn seiliedig ar bump fesul BILl/Ymddiriedolaeth a thri ar gyfer Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG), ac oddeutu 262 o unigolion mewn timau pryderon ac y byddai'n cymryd tua dwy awr i bob person gwblhau'r hyfforddiant. Wrth i gyrff y GIG ailgynllunio neu ailddyrannu eu hadnoddau, gallai'r niferoedd hyn newid.

37. **Gofal sylfaenol – hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i bob aelod o staff:** Bydd yr un deunyddiau hyfforddi ar gael ar gyfer gofal sylfaenol, gyda'r mwyafrif o'r staff yn gorfod gwylio'r fideo ymwybyddiaeth.

38. **Rheolwyr practis gofal sylfaenol / arweinwyr cwynion:** I helpu practisau gofal sylfaenol i roi'r broses newydd ar waith, bydd y fideo addysg a hyfforddiant llawn ar gael i arweinwyr, rheolwyr a phersonél sy'n ymdrin â phryderon/cwynion. Amcangyfrifir y caiff y gweithdai ar gyfer rheolwyr practisau gofal sylfaenol/arweinwyr cwynion eu darparu i oddeutu 1,945 o unigolion ac y byddant yn cymryd tua 2 awr i'w cwblhau fesul unigolyn.

39. **Costau:** Ar ben hynny, y disgwyl yw mai mangreoedd Llywodraeth Cymru neu'r GIG fyddai'n cael eu defnyddio i ddarparu hyfforddiant wyneb yn wyneb i reolwyr practisau gofal sylfaenol /arweinwyr cwynion, hyfforddiant Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg, ac ni fyddai Byrddau'r GIG yn ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol. Er hynny, efallai y bydd cost yn gysylltiedig â sicrhau lleoliadau i ddarparu'r hyfforddiant hwn os na fydd lle addas ar gael am ddim.

40. **Hyfforddiant arbenigol i dimau gwneud iawn:** caiff yr hyfforddiant hwn ei ddarparu'n bennaf gan Dim Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac er y bydd angen diweddaru cynnwys yr hyfforddiant hwn yn unol â rhai o'r newidiadau i'r rheoliadau, nid ystyrir bod yr effaith yn fwy na'r ymrwymiad gwreiddiol ac felly er ei bod yn debygol y bydd angen hyfforddiant gloywi nid ystyrir y bydd hyn yn gost ychwanegol i'r GIG o gymharu â'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y prosesau presennol. Fodd bynnag, mae'r costau hyn wedi cael eu cynnwys er mwyn sicrhau tryloywder a chyflawnder. Wrth i gyrff y GIG ailgynllunio neu ailddosbarthu eu hadnoddau, gallai'r niferoedd hyn newid

41. Ar hyn o bryd mae hyfforddiant arbenigol ad hoc yn cael ei gynnal gan dimau gwneud iawn a staff uwch yn y GIG. Caiff ei ddarparu gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg partneriaeth cydwasanaethau'r GIG pan fo'r capasiti yn caniatáu. Mae'n rhesymol cynllunio y gallai fod angen adnewyddu'r hyfforddiant hwn, a bydd angen diweddaru'r deunyddiau yn unol â'r diwygiadau newydd.

42. Ar gyfer unrhyw hyfforddiant Cyfreithiol a Risg arfaethedig, amcangyfrifir y bydd angen i bob darparwr gwasanaethau GIG gael dau ddiwrnod o hyfforddiant y flwyddyn, ar gyfartaledd, i'w ddarparu gan gyfreithiwr Band 8b y GIG. Amcangyfrifir mai cost cyfle hyn i'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yw:

43. Tabl 3 – Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Datblygu a darparu hyfforddiant

| Gweithgaredd | Diwrnodau hyfforddiant | Cyfradd gymedrig fesul awr | Cynnydd o 27% | Cyfanswm Costau Blynyddol |
|---|---|---|---|---|
| Costau cyfle yr hyfforddiant Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg arfaethedig | 20 diwrnod (7 awr y diwrnod) | £105.00 | £28.35 | £18,700 |

44. **Hyfforddiant ar lefel Bwrdd:** I helpu ac i ymgorffori egwyddorion bod yn agored a thryloyw o fewn darparwyr gwasanaethau'r GIG, i helpu'r staff i wireddu'r ddyletswydd, ac i ategu'r newidiadau ehangach y mae eu hangen mewn arweinyddiaeth, diwylliant ac ymddygiad er mwyn gweithredu'r ddyletswydd, bydd angen i aelodau Byrddau (aelodau sy'n swyddogion ac aelodau annibynnol) gael hyfforddiant. Bydd yr hyfforddiant hwn yn sicrhau bod Aelodau Bwrdd yn hyderus yn eu gallu i geisio sicrwydd bod eu sefydliad yn gwneud digon i ddysgu o gwynion pobl a digwyddiadau diogelwch cleifion a'u bod yn defnyddio'r dysgu hwn i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Yn ogystal, byddant hefyd yn cael sicrwydd bod y broses newydd yn cael ei rhoi ar waith a'i bod yn cael ei dilyn a'i monitro'n ddigonol.

45. Byddai angen darparu'r hyfforddiant hwn i oddeutu 246 o unigolion (yn seiliedig ar aelodaeth Byrddau yn 2024/5) a byddai'n cymryd tua dwy awr i bob person gwblhau'r hyfforddiant hwn.

46. Tabl 4 – costau cyfle sy'n gysylltiedig â hyfforddi'r GIG

| Carfan | Nifer staff | Oriau o hyfforddiant i bob person | Cyfradd gymedrig yr awr | Cynnydd o 27% yn cynrychioli 'argostau' | Amcangyfrif o'r costau cyfle |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i bob aelod o staff y GIG a gyflogir yn uniongyrchol(ii) | 90,948 | 0.3 | £18.64 | £5.04 | £646,000 |
| Hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i bob aelod o staff – gofal sylfaenol(ii) | 15,329 | 0.3 | £18.64 | £5.04 | £108,900 |
| Hyfforddiant ymwybyddiaeth uwch i staff arbenigol (v) | 59 | 2 | £28.21 | £7.35 | £4,100 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyfforddiant i dimau pryderon(ii) | 287 | 2 | £18.64 | £5.04 | £13,600 |
| Rheolwyr practisau gofal sylfaenol/arweinwyr cwynion(iv) | 1,945 | 2 | £27.01 | £7.29 | £133,500 |
| Hyfforddiant lefel bwrdd(vi) | 246 | 2 | £66.43 | £17.94 | £41,600 |
| Hyfforddiant Cyfreithiol a Risg arfaethedig | 1,955 | 15 | £107 | £28.89 | £3,985,000 |
| Cyfanswm | | | | | £4,932,700 |

Yn unol â chyngor tîm Cyllid Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, mae cynnydd canrannol o 27% wedi cael ei gynnwys gan nad yw'r ffigurau sydd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnwys argostau.

(ii) Mae Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai'r cyflog cymedrig fesul awr (ac eithrio goramser) i'r rhai sy'n gweithio ym maes iechyd pobl oedd £18.64 yn 2024. Cynhwysir hefyd 100 o staff Llais ar gyfer ymwybyddiaeth sylfaenol, 10 ar gyfer hyfforddiant arbenigol a 25 ar gyfer timau cwynion.

(iii) Mae Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai'r tâl cymedrig fesul awr (heb gynnwys goramser) i reolwyr a chyfarwyddwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol oedd £28.21 yn 2024.

(iv) Mae Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y tâl cymedrig fesul awr (heb gynnwys goramser) i'r rhai sy'n gweithio fel rheolwyr practisau gofal iechyd yn 2024 - mae'r data yn cynnwys deintyddion a meddygon teulu a staff practisau meddygon teulu a fferyllwyr cymunedol a rheolwyr gofal sylfaenol.

(v) Ar sail gwybodaeth a dderbyniwyd gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau mewn perthynas â nifer y staff sy'n ymwneud â phryderon, digwyddiadau, Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS), gwneud iawn, hawliadau a'r Ombwdsmon.

(vi) Mae Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos mai'r tâl cymedrig fesul awr (heb gynnwys goramser) i brif weithredwyr ac uwch-swyddogion oedd £66.43 yn 2024 ac mae'n cynnwys aelodau bwrdd Llais.

iii. **Datblygu canllawiau a deunyddiau ategol**.

47. Datblygodd tîm y rhaglen y gwaith sy'n gysylltiedig â'r diwygiadau rheoliadol a'r canllawiau gan ddefnyddio grŵp cyfeirio rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr allweddol o sefydliadau'r GIG ac arweinwyr rhwydweithiau'r GIG, cynrychiolwyr o blith cyfreithwyr Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Llais (corff llais y dinesydd), Perfformiad a Gwella GIG Cymru (sef Gweithrediaeth GIG Cymru gynt), Cronfa Risg Cymru, tîm System Rheoli Cwynion Unwaith i Gymru ac arweinydd addysg a hyfforddiant o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Yn ogystal, roedd Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio a Phrofiadau Cleifion yn cael eu cynrychioli fel yr arweinwyr gweithredol ar gyfer Cwynion a Digwyddiadau'r GIG yn y rhan fwyaf o sefydliadau.

48. Ffocws y grŵp hwn oedd rhoi cyngor a barn arbenigol a helpu i lywio gwaith tîm y rhaglen. Yn ystod Chwarter 4 2024/5 cafodd Cyfarwyddwyr Perfformiad a Gwella GIG Cymru eu comisiynu i ymgymryd â chymorth gweithredu trosolwg strategol ar gyfer rhoi'r newidiadau a'r broses newydd ar waith. Roedd hyn yn cynnwys Grŵp Gweithredu Trosolwg Strategol arweiniol gweithredol a Grŵp Gweithredu Arweiniol Gweithredol. Roedd gan y grwpiau hyn fandadau clir i sicrhau bod eu sefydliadau yn barod i roi'r rheoliadau newydd ar waith yn llawn a helpu i lunio'r deunyddiau hyfforddi sydd eu hangen ar y GIG. Cafodd y costau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r grwpiau eu cynnwys yn nyraniad blynyddol Perfformiad a Gwella GIG Cymru a chafodd y SRG ei redeg gan ddefnyddio cyllideb y rhaglen.

49. Tabl 5 – Costau staff blynyddol tîm rhaglen Llywodraeth Cymru, rhaglen waith 2 flynedd

| Rôl | Cost Flynyddol | Amcangyfrif o’r amser sydd ei angen | **Cost** |
|---|---|---|---|
| Arweinydd y Rhaglen - Secondai o'r GIG, Band gweithredol 1 | 110,400 | 0.8 w.t.e | 88,400 (i) |
| Band Rheoli 1 | 70,876 | 0.5 w.t.e | 35,500 |
| Band Rheoli 2 | 55,881 | 0.4 w.t.e | 22,400 |
| Band Rheoli 3 | 45,004 | 0.4 w.t.e | 18,100 |
| Cyfreithiwr Drafftio Arweiniol | 91,860 | 0.2 w.t.e | 18,400 |
| Uwch-gyfreithiwr Drafftio | 110,075 | 0.2 w.t.e | 22,100 |
| **Cyfanswm** | | | **204,900** |

1. Gan dybio na fyddai'r rôl yn cael ei llenwi pe na fwrid ymlaen, mae'r rhain yn gostau gwirioneddol yr aed iddynt eisoes.

53. Tabl 6 - Costau Ymgysylltu â'r Cyhoedd:

| **Digwyddiad** | **Lleoliad** | **Costau** |
|---|---|---|
| Sesiwn ymgysylltu â'r cyhoedd | Y De | £100 |
| Sesiwn ymgysylltu â'r cyhoedd | Y Gogledd | £500 |
| Gweithdai a gynhelir gan Llais | Y Gogledd a’r De | O fewn y dyraniad cyllidebol blynyddol |
| Gweithdy Plant yng Nghymru 2024 | Y De ond roedd yn cynnwys pobl ifanc o bob cwr o Gymru | Fel rhan o weithdy preswyl blynyddol arferol yn Llangrannog, Ceredigion - cyllid i AGC drwy ei chymorth grant blynyddol. |

54. Mae'r costau staff i Lywodraeth Cymru am ddatblygu'r canllawiau wedi'u cynnwys yn yr adnoddau yn nhablau 5 a 7.

55. Yn ychwanegol at y canllawiau ar gyfer y GIG, mae dogfen ganllaw ar gyfer cleifion, eu teuluoedd a'r cyhoedd yn ehangach, sy'n amlinellu'r broses mewn ffordd symlach. Bydd fersiwn hawdd ei darllen a fersiwn plant a phobl ifanc yn cael eu creu, a'r olaf yn cael ei llunio drwy broses ar y cyd â Plant yng Nghymru.

56. Tabl 7 – costau cyfle a chostau suddedig ar gyfer y canllawiau a'r deunyddiau ategol

| Gweithgaredd | Gradd | Amser | Cost Cyfle Amcangyfrifedig |
|---|---|---|---|
| Prif Ganllawiau ar gyfer y GIG | Band Rheoli 3 | **0.5 diwrnod** | £100 |
| Dylunio a chysodi(i) | Band Rheoli 3 | 4 diwrnod | £800 |
| Cyfieithu a phrawfddarllen(i) | Band Gweithredol 2 | 15 diwrnod | £6000 |
| | Band Rheoli 2 | 7.5 diwrnod | £2000 |
| Canllawiau i gleifion a'u teuluoedd | Band Rheoli 2 | 2 diwrnod | £500 |
| Dylunio a chysodi(i) | Band Rheoli 3 | 4 diwrnod | £800 |
| Siart llif x 2 | Band Rheoli 2 | 0.5 diwrnod | £200 |
| Taflenni Cleifion Gwrando ar Bobl | Band Rheoli 3 | 1 diwrnod | £200 |
| Fersiwn hawdd ei deall o Daflenni Cleifion Gwrando ar Bobl | Band Rheoli 2 | 1 diwrnod | £300 |
| Cyfieithu a phrawfddarllen(i) | Band Gweithredol 2 | 10 diwrnod | £4200 |
| | Band Rheoli 2 | 4 diwrnod | £1000 |
| Deunyddiau canllaw i Blant a Phobl Ifanc | Plant yng Nghymru<br>3 hwylusydd a seicolegydd | 8 gweithdy | £22,000 |
| Dylunio a chysodi(i) | Band Rheoli 2 | 2 diwrnod | £500 |
| Cyfieithu a phrawfddarllen(i) | Band Gweithredol 2 | 7.5 diwrnod | £3000 |
| Cyfieithu i 16 o ieithoedd cyffredin | Methu rhoi amcangyfrif ar y cam hwn | i'w gadarnhau | i'w gadarnhau |
| Argraffu taflenni | | | £9000 |
| Dosbarthu taflenni i'r GIG | | | £2,100 |
| Cyfanswm | | | £45,800 |

56. Ni fyddai unrhyw gostau'n gysylltiedig â dosbarthu'r canllawiau gan mai dim ond fersiynau electronig o'r canllawiau fyddai ar gael. Byddai'r

canllawiau yn cael eu hailwampio bob pum mlynedd, gyda'r gost gyntaf yn codi yn 2031. Y gost cyfle amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â'r gwaith ailwampio hwn yw:

57. Tabl 8 – costau adnewyddu'r canllawiau ymhen 5 mlynedd

| **Gweithgaredd** | **Gradd** | **Amser** | **Cost Cyfle Amcangyfrifedig** |
|---|---|---|---|
| Ailwampio'r canllawiau | Band Gweithredol 2 | 10 diwrnod | £3,900 |
| Dylunio a chysodi(i) | Band Rheoli 3 | 7 diwrnod | £1400 |
| Cyfieithu a phrawfddarllen(i) | Band Rheoli 2 | 7.5 diwrnod | £1,800 |
| Cyfanswm | | | £7,100 |

(i) *Amcangyfrifir y byddai'r costau dylunio a chyfieithu yn cyfateb i hanner y costau gwreiddiol oherwydd nifer y newidiadau y byddai angen eu gwneud.*

58. Yn ogystal, bydd fideo yn iaith arwyddion Prydain yn cael ei ddatblygu, a fydd yn esbonio sut i wneud cwyn i fwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth y GIG, a'r gobaith yw y bydd hwn ar gael ar dudalen lanio pob un o Gyrff Cyfrifol y GIG.

59. Tabl 9 – Amcangyfrif o gostau Iaith Arwyddion Prydain

| **Gweithgaredd** | **Costau datblygu** | **Cyfanswm Cost** |
|---|---|---|
| Comisiynu fideo byr yn iaith arwyddion Prydain i roi cyflwyniad ar sut i wneud cwyn yn y GIG yng Nghymru | £500 - £1500 | Amcangyfrifir swm o £1,800 gan gynnwys TAW |

**Manteision:**

60. Mae manteision y diwygiadau a wneir i'r prif Reoliadau gan y Rheoliadau diwygio yn ceisio rhoi cyfle i symud mwy o achosion i gam 1 datrys yn gynnar (Gwrando a Gweithredu), sy'n fuddiol i'r person dan sylw ac i'r sefydliad. Er mai dyma'r opsiwn drutaf o'r tri, o safbwynt costau cyfle i Gyrff Cyfrifol a Llywodraeth Cymru, dyma'r opsiwn sy'n arwain at yr ystod ehangaf o fanteision hirdymor. Mae'n golygu gwaith deddfwriaethol cymhleth i dimau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r weithdrefn gadarnhaol, bydd angen cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ar y cyd â chyrff y GIG a rhanddeiliaid, a bydd angen i swyddogion polisi ddatblygu'r canllawiau a deunyddiau ategol.

61. Bydd y newidiadau rheoliadol a'u goblygiadau, y briffiau technegol, yr asesiadau effaith a'r gwaith cynllunio gweithredu cysylltiedig, gan gynnwys costau hyfforddi, yn galw am gynllunio adnoddau strategol a cheir crynodeb o'r costau hynny yn y tablau uchod. Bydd manteision adnewyddu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau yn golygu y bydd y broses

Gwrando ar Bobl newydd yn moderneiddio'r rheoliadau sy'n rheoli'r broses, ac y bydd y gwelliannau mewn prydlondeb a'r newid ymagwedd at gwynion ac ymchwilio i ddigwyddiadau diogelwch cleifion yn rhoi ffocws o'r newydd ar ddysgu o ddigwyddiadau.

## V. Costau rhoi'r ddyletswydd ar waith a'r costau gweithredu parhaus:

62. Yn ogystal â'r meysydd allweddol uchod, pan fo angen gweithredu i roi'r Rheoliadau diwygio a'r dull Gwrando ar Bobl newydd ar waith, mae'n bosibl y gallai costau atodol eraill godi.

63. Lle bo hynny'n bosibl, mae Gwrando ar Bobl: proses GIG Cymru ar gyfer Cwynion, Digwyddiadau a Gwneud Iawn yn adeiladu ar y systemau a'r prosesau presennol sy'n ategu egwyddorion Bod yn Agored a'r prif Reoliadau a phrosesau Gweithio i Wella, sydd eisoes wedi hen ymsefydlu yn y polisïau a'r gweithdrefnau sefydliadol presennol.

64. Bydd angen i holl ddarparwyr y GIG ddatblygu cynllun gweithredu i sicrhau bod y broses Gwrando ar Bobl newydd a'r Rheoliadau diwygio yn cael eu cyflwyno'n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys adolygu polisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y newidiadau sydd eu hangen yn sgil cyflwyno'r diwygiadau yn cael eu rhoi ar waith, bod prosesau ar waith i adrodd arnynt a'u bod yn cael eu mabwysiadu drwy drefniadau llywodraethu sefydliadol – gan gynnwys y trefniadau ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol sy'n darparu gofal ar eu rhan. Rhagwelir mai rheolwyr gofal sylfaenol a thimau pryderon corfforaethol fydd yn arwain y gwaith hwn ond rheolwyr practisau gofal sylfaenol neu staff o'r fath fydd yn gyfrifol am y cydrannau datrys yn gynnar gan mwyaf. Amcangyfrifir y bydd y gost cyfle i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig fel a ganlyn:

65. Tabl 10 – cost cyfle ar gyfer datblygu cynllun gweithredu

| Gweithgaredd | Nifer y sefydliadau | Amser angenrheidiol | Cyfradd flynyddol | Amcangyfrif o'r costau cyfle |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu cynllun gweithredu – BILlau ac Ymddiriedolaethau a Llais | 11 | 3 diwrnod | £113,399 | £14,400 |
| Datblygu cynllun gweithredu – Practisau gofal sylfaenol | 1,945 | 2 diwrnod | £110,075 | £1,785,000 |
| Cyfanswm Cost | | | | £1,799,400 |

(i)Tabl 10 – cyfateb i Fand Gweithredol 1 – darparwyd y gyfradd flynyddol gan Dîm Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn seiliedig ar Gyfraddau Cyflog Gros Cyfartalog ar gyfer Bandiau Cyflog nad ydynt yn yr Uwch Wasanaeth Sifil yn 2025/6.

**Cwynion a Digwyddiadau Diogelwch Cleifion**

66. Mae Llywodraeth Cymru yn cael gwybodaeth reoli bob chwarter am nifer a natur y pryderon a ddaeth i law pob un o'r byrddau iechyd, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

67. Tabl 11 - Data cwynion y GIG ar gyfer Cymru 2022 - 2025

| Blwyddyn | Cyfanswm y pryderon newydd y rhoddwyd gwybod amdanynt | Ceisiwyd cymryd camau Datrys Cynnar | Cyfeiriwyd at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Achosion a gadarnhawyd |
|---|---|---|---|---|
| 2022–23 | 20,344 | Data anghyflawn | 926 (5.22%) | 9.59% |
| 2023 -24 | 19,062 | 29.77% | 987 (5.51%) | 12.58% |
| 2024–25 | 18,334 | 40.28% | 971 (6.14%) | 5.1 % |

Ffynhonnell: Data rheoli a dynnwyd o Ddangosfwrdd Beacon Perfformiad a Gwella GIG Cymru 2025

**Noder**: Data crai yw gwybodaeth reoli nad ydynt wedi cael eu dilysu ac nad ydynt yn cyrraedd safon ystadegau gwladol.

68. Ar gyfer 2024/5, canolrif Cymru gyfan ar gyfer datrys yn gynnar oedd 2 ddiwrnod gwaith ond roedd yr amrediad yn dangos 5 diwrnod a 7 diwrnod ar gyfer dau Gorff Cyfrifol.

69. Amser canolrifol Cymru gyfan ar gyfer cau pryder o dan y prif Reoliadau oedd 29 diwrnod gwaith ond roedd amrediad ehangach yma o 19, 22, 24, 27, 29 diwrnod a chofnodwyd bod gan 4 Corff Cyfrifol ganolrif o 30 diwrnod.

70. Mae'n ddiddorol gweld cynnydd yn nifer y pryderon a gaiff eu datrys ar y cam datrys yn gynnar, mae'n sicr y bydd hyn yn lleihau'r baich ar ymchwiliadau llawn i'r rhai sydd wedi'u datrys yn barod. Drwy ymestyn yr amser a ganiateir i ddatrys achos yn gynnar, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai hyn olygu y caiff mwy o achosion eu datrys yn gynnar, gan gynnig arbediad o bosibl ar gostau cyfle'r cam ymchwilio cymhleth y cyfeirir ato yn y canllawiau diwygiedig newydd fel cam 2. Mae hyn yn arbennig o berthnasol am fod y staff sy'n tueddu i oruchwylio a chymeradwyo ymateb yn tueddu i fod ar lefel gweithredwyr/uwch-reolwyr

neu ymgynghorwyr clinigol.

71. Mae llawer o ddigwyddiadau diogelwch cleifion yn cael eu canfod pan gaiff y Ddyletswydd Gonestrwydd ei sbarduno neu cânt eu hadrodd drwy Datix (y system rheoli cwynion Unwaith i Gymru) gan staff neu byddant yn dod i law drwy bryderon a godir gan gleifion neu'u teuluoedd y mae angen cynnal ymchwiliadau cymesur iddynt er mwyn deall y ffactorau achosol a'r camau a gaiff eu cymryd i liniaru'r risg y byddant yn digwydd eto.


72. Fodd bynnag, yn achos y rhai llai difrifol, mae cyfle hefyd i'r broses datrys yn gynnar gael effaith ar yr amser a fyddai'n cael ei dreulio fel arfer ar ymchwiliadau hir a manwl. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod defnyddio'r cyfnod datrys yn gynnar ar gyfer cwynion a digwyddiadau lefel isel i gymedrol yn rhoi cyfle i addasu adnoddau fel y gellir treulio unrhyw amser ychwanegol yn gwrando ar y rhai sy'n rhan o ddigwyddiad diogelwch cleifion neu sy'n gwneud cwyn am y gofal y maent wedi'i gael. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn y gallai fod angen adnoddau ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd gyntaf i wneud yr addasiadau hyn cyn ei bod yn debygol y caiff yr arbedion cyffredinol eu cyflawni.

73. Yn ogystal, gallai defnyddio technegau ymchwilio mwy modern a chymesur leihau'r amser a dreulir a chostau cyffredinol. Mae hyn eisoes ar waith yn rhai o sefydliadau'r GIG yng Nghymru ac mae'r canlyniadau cynnar yn addawol. Byddai cyfle o hyd i ganolbwyntio ar ddeall a rhannu gwersi a ddysgwyd er mwyn osgoi niwed i gleifion eraill yn y dyfodol.

74. Caiff y broses ei rheoli o dan y Polisi Cenedlaethol ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion.[15]

[15] GIG Cymru (2024) Polisi Cenedlaethol ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion du.nhs.wales/files/incidents/national-policy-on-patient-safety-incident-reporting-2-0-pdf/

75. Tabl 12 - Data Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol Cymru Gyfan 2022 - 2025




**Noder** mai data crai yw gwybodaeth reoli nad ydynt wedi cael eu dilysu ac nad ydynt yn cyrraedd safon ystadegau gwladol.

76. Mae'r Data ar Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol (NRI) yn dangos mai'r cyfanswm yng Nghymru yn 2022/23 oedd 857, 1046 yn 2023/24 ac 840 yn 2024/25.

77. Tabl 13 - Amser canolrifol i ymchwilio i Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol – gwybodaeth reoli o Ddangosfwrdd Beacon ar 2/5/25

| **Sefydliad** | **Diwrnodau gwaith canolrifol i gwblhau ymchwiliadau NRI*** | **Amrediad mewn diwrnodau gwaith** |
|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG/AIA | 131 | 103–180 |
| Bwrdd Iechyd Lleol | 136 | 79–170 |
| Canolrif Cymru gyfan | 133 | |

- *Heb gynnwys briwiau pwyso

78. Dylid nodi bod nifer mawr o ddigwyddiadau clinigol eraill nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer digwyddiadau adroddadwy cenedlaethol. Er hynny, mae angen ymchwilio iddynt, gweithredu arnynt a dysgu ohonynt ac maent yn ddarostyngedig i'r prif Reoliadau.

79. Bydd hefyd angen diweddaru ac ailddylunio system rheoli pryderon Unwaith i Gymru er mwyn sicrhau bod y diwygiadau wedi'u hymgorffori'n llawn yn y system ddigidol. Mae hyn hefyd yn wir am system rheoli perthynas cwsmeriaid Llais. Bydd angen rhagor o waith i ddeall y costau manwl ar gyfer y rhain.

**(v) Amlinellir isod y costau parhaus amcangyfrifedig sy'n deillio o weithredu'r diwygiadau i'r prif Reoliadau a'r canllawiau.**

80. Er eu bod yn anodd eu mesur, rhagwelir y bydd y newidiadau canlynol, sy'n ceisio rhoi llais cryfach i gleifion ac achwynwyr yn y broses, yn arwain at fwy o ddefnydd o'r cam datrys yn gynnar, gan leihau'r effaith ar adnoddau o bosibl. Gwelwyd y duedd hon yn barod drwy'r cynnydd yn nifer y pryderon a ddatryswyd yn gynnar dros y 12 mis diwethaf. Mae'r diwygiadau newydd hefyd yn cynnwys y canlynol:

- diwygio'r cynnig gorfodol presennol o drafodaeth wrando wyneb yn wyneb, yn enwedig er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i'r galarwyr.
- caniatáu mwy o amser i geisio datrys mater yn gynnar.
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd tra bod y mater yn cael ei drin.

81. O dan y Ddyletswydd Gonestrwydd, mae'n ofynnol eisoes i Gyrff Cyfrifol gysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth neu'i gynrychiolydd pan fyddant yn dod i wybod am y digwyddiad er mwyn rhoi gwybod iddynt beth sydd wedi digwydd yn ôl eu dealltwriaeth nhw, esbonio beth fydd yn digwydd nesaf, ymddiheuro a chynnig cymorth, a rhoi adborth wedi hynny ar ymchwiliadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i atal achos o'r fath rhag digwydd eto a chadw cofnodion.

82. Mae'r prif Reoliadau eisoes yn cynnwys dyletswydd i gynnig trafod materion penodedig â'r person a hysbysodd y pryder (rheoliad 22(4)), ar adeg sydd i'w chytuno â'r person hwnnw, sy'n cynnwys trafodaeth am y math o ymchwiliad, unrhyw eiriolaeth y gallai fod ei hangen a hyd yr ymchwiliad. Yr adborth a gafwyd gan y cyhoedd oedd nad oedd y drafodaeth hon yn cael ei chynnal bob amser a phan roedd yn cael ei chynnal, nid oedd y person a gododd bryder bob amser yn teimlo bod rhywun wedi gwrando arno'n ddigonol.

83. Mae'n rhesymol derbyn y bydd rhai goblygiadau o ran adnoddau yn codi yn sgil cynnydd ehangach y drafodaeth wrando o gymharu â'r adnoddau sydd eu hangen i fodloni'r gofyniad cyfreithiol gwreiddiol i gynnig trafod y pryder a sut yr ymchwilir i'r pryder. Fodd bynnag, ni chredir y bydd y cynnydd hwn mewn adnoddau yn sylweddol iawn o gymharu â'r prosesau presennol ac, felly, i amcangyfrif hyn, defnyddiwyd y cyfrifiadau ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd.

84. Cost cyfle i Gyrff Cyfrifol ychwanegu cydrannau ychwanegol y drafodaeth wrando at y cynnig o drafodaeth a geir yn y rheoliadau gwreiddiol pan gaiff pryder ei godi.

85. Tabl 14 – Amcangyfrif o'r amser ychwanegol ar gyfer y drafodaeth wrando ar ben y drafodaeth sydd eisoes yn y prif Reoliadau.

| Gweithgaredd | Yr amser ychwanegol sydd ei angen | Faint sy'n manteisio ar y cynnig | Amlder Pryderon Cymru Gyfan | Cyfradd yr awr | Amcangyfrif o’r costau cyfle |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost cyfle – gwaith cyfathrebu ychwanegol â'r defnyddiwr gwasanaeth neu'i gynrychiolydd ar ben gofyniad y rheoliadau gwreiddiol | Trafodaeth o 30 munud | 50% yn manteisio ar y cynnig | 8,149.5 | £35.83(i) | £146,000 |
| | Trafodaeth o 30 munud | 100% yn manteisio ar y cynnig | 16,299 | £35.83 | £292,000 |

Wedi'u cymryd o ddadansoddiad RIA y Ddyletswydd Gonestrwydd o'r cyflog cymedrig fesul awr a'r argostau ar gyfer y rhai mewn rolau rheoli ym maes iechyd wedi'u hamcangyfrif yn erbyn graddfa Band Gweithredol 2 2025 (£91,860 gan gynnwys ychwanegiad).

86. Bydd un o'r diwygiadau i'r rheoliadau yn rhoi llawer mwy o eglurder ynghylch dyletswydd y corff cyfrifol i asesu'r angen am eiriolaeth a chymorth ar sawl cam yn y broses pryderon. Mae'r pwyslais hwn yn adeiladu ar weithdrefn y ddyletswydd gonestrwydd a oedd hefyd yn rhoi pwyslais tebyg ar sicrhau bod pobl yn cael cymorth digonol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu clywed ac y gallent chwarae rhan fwy blaenllaw yn y broses Gwrando ar Bobl. Bydd hyn yn sicr yn cael effaith ar Llais a sefydliadau trydydd sector am y gallai'r galw posibl am eiriolaeth gynyddu.

87. Ar hyn o bryd, mae Llais yn rhan o 10% o gyfarfodydd ynghylch digwyddiadau diogelwch cleifion a gellir disgwyl yn rhesymol i'r gyfradd hon gynyddu yn sgil y diwygiadau ac ar y cyd â'r eiriolaeth cwynion, bydd angen i'r sefydliad asesu hyn yn ofalus drwy gynnal asesiad effaith manwl.

88. Roedd y polisi hefyd yn bwriadu ymestyn yr amser a ganiateir i ddatrys mater yn gynnar yn y rheoliadau er mwyn rhoi mwy o gyfle i ateb pryderon a chwestiynau a godir gan alarwyr fel y gellir sicrhau bod gwybodaeth dosturiol a chefnogol yn cael ei rhoi yn gynnar yn y broses gan fod y cyhoedd wedi dweud mai dyma un o'r prif resymau eu bod wedi codi pryderon yn y lle cyntaf. Mae hyn hefyd yn galluogi'r Corff Cyfrifol i nodi'n gynnar yn y broses lle mae angen gonestrwydd neu ymchwiliad pellach mewn perthynas â phryderon difrifol am ofal a allai fod wedi arwain at farwolaeth. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â rôl statudol newydd y gwasanaeth archwilio meddygol o ran codi pryderon am ofal a leisiwyd gan deuluoedd y rhai a fu farw. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r strategaeth genedlaethol ar gyfer profedigaeth.

89. Yn ogystal, drwy ganiatáu mwy o amser, bydd gan staff gyfnod o amser realistig i weithredu ar gwynion er mwyn dod i ddatrysiad neu roi gwybodaeth gywir lle mae modd gwneud hynny. Fel y dengys y data presennol mae'r GIG eisoes yn cwblhau 40% o bryderon ar gyfartaledd o fewn y 2 ddiwrnod gwaith presennol, felly bydd yr estyniad yn gwella'r cyfle hwn heb roi pwysau ychwanegol sylweddol ar adnoddau.

**Yr Effaith ar Ymgyfreitha:**

90. Gallai ymdrechion i amcangyfrif yr effaith ac arbedion ar ymgyfreitha fod yn ddefnyddiol ond mae heriau'n ymwneud â data cywir yn golygu mai dim ond canfyddiadau cyfyngedig y gellir eu llunio ar y cam hwn. Fodd bynnag, tybir y bydd mwy o gyfle i ddefnyddio'r cynllun gwneud iawn, a fydd yn arwain at lai o achosion yn troi at ymgyfreitha, drwy gynyddu'r trothwy ar gyfer iawn i £50,000; cytuno ar yr amserlen i ddatrys pryder neu gŵyn gyda'r achwynydd; cyflwyno cyfarfod i drafod canfyddiadau'r ymchwiliad; gwella'r cyfathrebu ag achwynwyr yn ystod yr ymchwiliad; cynyddu'r rhestr ffioedd ar gyfer y ffioedd a delir i gyfreithwyr sy'n delio â hawliadau gwneud iawn, a chynyddu ymwybyddiaeth ymhlith hawlwyr bod corff y GIG yn talu am gyngor cyfreithiol ac arbenigol a chyngor meddygol yr achwynydd (lle bo hynny'n berthnasol).

**<u>Achosion Gwneud Iawn ac Achosion Esgeuluster Clinigol</u>**

91. Tabl 15 - Data Rheoli ar gyfer Cyrff Cyfrifol Cymru o fis Ebrill 2024 i fis Chwefror 2025

| Sefydliad | Cwynion/ Hawliadau/ Gwneud Iawn/ Cwest – 1) Rheolwr (WTE) 2)Gweinyddol (WTE) | Nifer yr achosion Gwneud Iawn gweithredol/ agored rhwng 04/24 a 02/25 | Nifer yr achosion Gwneud Iawn a gaewyd rhwng 04/24 – 02/25 | Nifer yr achosion Gwneud Iawn gweithredol | Nifer y cwynion sy'n fwy na gwerth y broses Gwneud Iawn | Nifer yr achosion Dyletswydd Gofal a gafodd eu sbarduno rhwng 04/24 a 02/25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymdd. GIG/ AIA | 1) 5.2<br>2) 6.0* | 46 | 26 | 44 | 5 *3 | 62 |
| Bwrdd Iechyd Lleol | 1) 20.68<br>2) 112.73 *1 | 448 | 364 *2 | 823 *2 | 255 | 738 *2 |
| Llais | 1) I'w gadarnhau<br>2) i'w gadarnhau | | | | | |

- *Data anghyflawn gan un ymddiriedolaeth GIG gan fod rolau wedi'u hintegreiddio â rolau ansawdd eraill.
- *[1]mae modelau rolau a strwythurau gwahanol yn golygu eu bod yn anodd cymharu ac mae llawer o rolau wedi'u hintegreiddio â swyddogaethau eraill
- *[2]data ar goll gan un BILl.
- *[3] ni allai un ymddiriedolaeth GIG roi data cywir ac felly rhoddodd ymateb o ddim

92. Yn dilyn y gwaith ymgynghori â'r cyhoedd a wnaed i ddynodi'r bwriad i symleiddio'r rhestr ffioedd cyfreithwyr a oedd wedi'i chynnwys yn wreiddiol yng nghanllawiau 2011, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu'r ffioedd yn y canllawiau a'u rhannu'n ddwy ran.

93. Proses gwneud iawn Gweithio i Wella i roi mwy o fynediad at gyngor cyfreithiol am ddim i bobl sy'n codi pryderon a chwynion.

94. Ar hyn o bryd, caiff cynrychiolydd cyfreithiol yr hawlydd dderbyn un taliad o £1600 am y canlynol:

- Ystyried achos o dorri dyletswydd ac ymchwilio i'r achos dros hynny, gan gynnwys comisiynu hyd at ddau adroddiad arbenigol neu
- Adolygu priodoldeb y cynnig a wnaed gan gorff y GIG i'r achwynydd.

95. Gallant gael taliad arall i adolygu unrhyw adroddiad arall ar y cyflwr a'r prognosis er mwyn amcangyfrif iawndal.

96. Caiff y cynrychiolydd cyfreithiol dderbyn £868 arall i gynghori'r achwynydd os bydd corff y GIG yn cyfaddef Atebolrwydd Cymwys ond yn gwrthod cynnig iawn.

97. O'r data a ddarparwyd, mae costau cyfreithwyr hawlwyr yn fwy na'r cyfraddau hyn, sy'n dangos nad yw'r cyfraddau gwreiddiol yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol.

98. Rydym yn cynnig symleiddio'r system ffioedd bresennol a disodli'r uchod fel a ganlyn:

- Taliad 1: am roi cyngor ar addefiad o atebolrwydd a wnaed (£1750)
- Taliad 2: am ddarparu cyngor ar gwantwm yr iawndal[16] os cytunir ar setliad o dan y trefniadau gwneud iawn o (£1000)

99. Mae'r holl ffigurau uchod yn cynrychioli'r ffioedd cyn ychwanegu TAW.

[16] Term cyfreithiol yw cwantwm yr iawndal sy'n golygu swm yr arian a ddyfernir yn iawndal am gamwedd sifil. Yr egwyddor sylfaenol yw bod hawl gan yr hawlydd gael ei roi yn y sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r anaf wedi digwydd, i'r graddau y gall arian wneud hynny.

100. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, gallai taliadau ychwanegol fod ar gael am gyfarwyddo arbenigwyr ychwanegol neu gynghori'r achwynydd os bydd corff y GIG yn cyfaddef Atebolrwydd Cymwys ond yn gwrthod cynnig gwneud iawn.

101. Y bwriad yw na fyddai achosion cymhleth nac achosion gwarchodedig yn dod o dan y trefniadau gwneud iawn fel arfer ac y dylid parhau i'w rheoli, felly, drwy'r system achosion sifil hyd nes y caiff y Cynllun Costau Adenilladwy Sefydlog arfaethedig ei ymestyn ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol gwerth uchel gan Lywodraeth y DU, pan ellir ailasesu'r sefyllfa.

**Costau cyngor cyfreithiol i Gyrff Cyfrifol o dan y trefniadau newydd**

102. **Cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** – Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg yn darparu cyngor y gellir codi tâl amdano i gyrff y GIG mewn perthynas â gwneud iawn o dan y prif Reoliadau. Amcangyfrifir, yn y flwyddyn gyntaf (2026-27), y byddai ceisiadau am gyngor ynghylch yr achosion ychwanegol posibl (gweler tabl 15 o achosion y tu allan i'r terfyn gwneud iawn uchod) a allai gael eu cynnwys yn y llwybr gwneud iawn, yn arwain at gynnydd o 22% yn y costau presennol mewn perthynas â chyngor y gellir codi tâl amdano y gofynnir amdano mewn perthynas â diwygiadau a wneir i'r prif Reoliadau ac y byddai'r lefel hon yn cael ei chynnal yn ystod blynyddoedd dilynol. Y bras swm presennol a filiwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg i gyrff GIG mewn perthynas â materion Gweithio i Wella yw £34,500. Amcangyfrifir bod y costau i gyrff y GIG fel a ganlyn:

103. Tabl 16 – costau cael cyngor cyfreithiol gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

| | 2026–27 | 2027–28 | 2028–29 | 2029–30 | 2030–31 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost – costau cyfreithiol sy'n daladwy i Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am waith y gellir codi tâl amdano mewn perthynas â cheisiadau am gyngor | 7,600 | 7,600 | 7,600 | 7,600 | 7,600 |

104. Canfu adolygiad gan swyddogion Llywodraeth Cymru o achosion gwneud iawn ac achosion esgeuluster clinigol a setlwyd fod 566 o achosion gwneud iawn a 431 o achosion esgeuluster clinigol wedi cael eu setlo yn y GIG yng Nghymru rhwng 2020 a 2023. Roedd y rhain yn cynnwys 276 o achosion lle cafwyd iawndal o hyd at £25,000 a 155 o achosion lle cafwyd iawndal o fwy na £25,000 a hyd at £50,000.

105. Tabl 17 - Data gwirioneddol Cronfa Risg Cymru ar achosion a setlwyd yn 2020-23

| **Data gwirioneddol Cronfa Risg Cymru ar achosion a setlwyd yn 2020-23** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gwneud Iawn** | **Ad-daliadau Esgeuluster Clinigol** | | **Sylwadau** |
| | >£0 | >£0 <=£25k | >£25k i £50k | |
| Nifer yr achosion | 566 | 276 | 155 | |
| Cyfanswm yr iawndal (£) | 4,794,607 | 3,792,583 | 5,905,930 | Dyma'r iawndal a ddyfernir i'r hawlydd yn uniongyrchol |
| Costau'r hawlydd (£) | 1,500 | 8,659,141 | 6,869,072 | Dyma'r costau a delir i gyfreithwyr yr hawlydd |
| Costau'r amddiffyniad (£) | 359,251 | 1,124,357 | 893,835 | Dyma'r costau yr aeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg iddynt fel rhan o brosesau llys |

106. Os caiff y diwygiad i reoliadau 29 (1) a 29 (2) ei gyflwyno, bydd mwy o achosion yn gymwys i fynd drwy'r broses gwneud iawn ac, os felly, bydd hyn yn lleihau costau'r hawlydd a chostau'r amddiffyniad ond ni fydd yn effeithio ar yr iawndal a delir oherwydd y caiff y symiau hyn eu pennu yn unol â chyfraith gyffredin a chanllawiau a gyhoeddir gan y Coleg Barnwrol.

107. Er y rhagdybir at ddibenion yr asesiad effaith hwn (ac er mwyn ategu bwriad y newidiadau polisi) y byddai mwy o achosion yn gymwys yn dechnegol i fod yn rhan o'r cynllun gwneud iawn, bydd achosion bob amser lle na fyddai hynny'n briodol boed hynny oherwydd natur yr achos neu oherwydd y byddai proses drwy'r llysoedd er lles pennaf yr hawlydd neu gymhlethdod yr achos.

108. Fel enghraifft, mae ystod o achosion sy'n symud i'r broses gwneud iawn wedi cael eu cyfrifo gan ragdybio y bydd pob achos yn manteisio ar y cyngor cyfreithiol a ariennir yn seiliedig ar y rhestr ffioedd newydd.

109. Tabl 18 - Dadansoddiad sy'n amcangyfrif effaith cynnwys achosion sydd ar hyn o bryd y tu allan i'r trothwy o £25,000 yn y broses gwneud iawn, yn seiliedig ar ddata 3 blynedd am hawliadau a setlwyd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pe byddai 100% o hawliadau esgeuluster clinigol yn symud i'r broses gwneud iawn ac yn cael cyngor cyfreithiol a ariennir ar y cyfraddau newydd | Achosion gwneud iawn gwreiddiol (566 o achosion) | Achosion esgeuluster clinigol £0-25K (276 o achosion) | Achosion esgeuluster clinigol £25 – 50K (155 o achosion) | Effaith fwyaf gyffredinol dros gyfnod o 3 blynedd |
| £2,741,750 | £1,500 | £8,659,141 | £6,869,072 | - £12,787,963 |
| | | | | |
| Pe byddai 60% o hawliadau esgeuluster clinigol yn symud i'r broses gwneud iawn a'r 60% i gyd yn cael cyngor cyfreithiol a ariennir ar y cyfraddau newydd | Achosion gwneud iawn gwreiddiol (566 o achosion) | Achosion esgeuluster clinigol £0-25K (276 o achosion) | Achosion esgeuluster clinigol £25 – 50K (155 o achosion) | Effaith fwyaf gyffredinol dros gyfnod o 3 blynedd |
| £2,267,650 Gan gynnwys y 566 o achosion gwneud iawn gwreiddiol | amh. | £3,463,656 | £2,747,628 | -£7,050,779 |
| | | | | |
| Pe byddai 30% o hawliadau esgeuluster clinigol yn symud i'r broses gwneud iawn a'r 30% i gyd yn cael cyngor cyfreithiol a ariennir ar y cyfraddau newydd | Achosion gwneud iawn gwreiddiol (566 o achosion) | Achosion esgeuluster clinigol £0-25K (276 o achosion) | Achosion esgeuluster clinigol £25 – 50K (155 o achosion) | Effaith fwyaf gyffredinol dros gyfnod o 3 blynedd |
| £1,912,075 Gan gynnwys y 566 o achosion gwneud iawn gwreiddiol | amh. | £6,061,398 mae hyn yn cyfateb i 70% o'r costau gan mai dim ond 30% a symudodd i'r broses gwneud iawn | £4,808,350 6,061,398 mae hyn yn cyfateb i 70% o'r costau gan mai dim ond 30% a symudodd i'r broses gwneud iawn | -£2,747,890 |

110. Nid yw nifer yr achosion a gynrychiolir yn y tabl hwn yn achosion newydd i'r GIG gan eu bod yn cael eu rheoli ar hyn o bryd trwy dimau Gwasanaethau Cyfreithiol yng nghyrff y GIG ar y cyd â'r cwmnïau cyfreithiol allanol a ddefnyddir, yn ogystal â chyngor gan wasanaethau Cyfreithiol a Risg y Cydwasanaethau.

111. Yn ogystal, gallai costau amddiffyn gael eu hosgoi (Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru) wrth i achosion symud i'r broses gwneud iawn yn lle ymgyfreitha sifil. Ar hyn o bryd, y ffigurau hyn ar gyfer y tri chyfnod o 3 blynedd oedd £1,224,357 ar gyfer y grŵp hawliadau £0-25K a £893,835 ar gyfer y grŵp hawliadau £25-50K. Mae'n anodd amcangyfrif yr effaith ar y rhain.

112. I'w nodi - Y rhagdybiaethau yn y cyfrifiadau hyn yw:

- y byddai pob achos esgeuluster clinigol yn dod o dan y broses gwneud iawn ond mae'n bosibl mai'r hawliau is eu gwerth fyddai'n gwneud hynny yn bennaf.
- y gallai fod costau ychwanegol mewn perthynas â'r hawliau esgeuluster clinigol mwy cymhleth yn trosglwyddo i'r broses gwneud iawn os cânt eu trosglwyddo yn ôl wedyn i'r llwybr hawlio esgeuluster clinigol

113. Hefyd, dylid pwysleisio'r canlynol

- mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar niferoedd hawliadau hanesyddol dros gyfnod o 3 blynedd ac nid arbedion blynyddol mohonynt; ac
- efallai na fyddant yn adlewyrchu niferoedd yr hawliadau yn y dyfodol gan fod mentrau eraill ar waith i geisio lleihau nifer yr hawliadau, yn enwedig y newidiadau i'r broses datrys yn gynnar a'r gwaith dysgu ac effaith y Ddyletswydd Gonestrwydd sy'n dal i gael ei deall a'i chyflawni'n llawn.
- Yn ôl tystiolaeth anecdotaidd, mae mwy o ddigwyddiadau yn cael eu hadrodd a'u hymchwilio ar ôl iddynt gael eu sbarduno drwy'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae hyn yn gam hynod o gadarnhaol a dymunol. Disgwylir mai'r canlyniad a ddymunir yn sgil hyn fydd symud mwy o achosion i'r trefniadau gwneud iawn. Fodd bynnag, awgrymwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 y byddai'n cymryd 5 mlynedd cyn i'r gwir effaith ar hawliadau esgeuluster clinigol ddod i'r amlwg.

114. Mae'n amlwg bod cyfleoedd i symud mwy o'r cwynion i'r broses datrys yn gynnar. Er bod ychydig o amser ychwanegol i wrando ar y materion y mae'r person yn eu codi, mae hyn wedi cael ei gyfrifo ar ben y cynnig gwreiddiol sy'n bodoli i drafod yr ymchwiliad a phryderon.

115. Fodd bynnag, mae'r 12 mis diwethaf wedi dangos, lle bo cyfraddau datrys yn gynnar wedi cynyddu, mae nifer y cwynion wedi lleihau ychydig. O dan y prif Reoliadau, caiff cwynion eu heithrio o broses bresennol Gweithio i Wella os cânt eu setlo'n llwyddiannus yn ystod y ddau ddiwrnod cyntaf. Mae data ar gael hefyd i ddangos y caiff y mwyafrif o gwynion eu hymchwilio a'u cwblhau'n llwyddiannus o fewn yr amserlen o 30 diwrnod gwaith.

116. Fodd bynnag, gan fod y diwygiadau newydd yn ei gwneud yn bosibl cysoni â'r Polisi Cenedlaethol ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion sy'n pennu mai 120 o ddiwrnodau gwaith yw'r mwyaf y gellir eu cymryd i gwblhau ymchwiliad a darparu adroddiad terfynol, mae cysondeb rhwng ymchwiliadau diogelwch cleifion a chwynion lle nad yw camau datrys yn gynnar wedi llwyddo neu lle nad oedd yn addas rhoi cynnig arnynt.

117. Mae'r amserlen 30 diwrnod gwaith yn parhau; fodd bynnag, y dull a ddymunir yw, pan fo 30 diwrnod gwaith yn amserlen afrealistig, fod yr ymgysylltu yn ystod y drafodaeth wrando yn galluogi'r corff cyfrifol i nodi amserlen fwy realistig gyda'r person.

118. Mae data ar Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol yn dangos mai'r canolrif yng Nghymru ar hyn o bryd yw 133 o ddiwrnodau gwaith. Wrth gwrs, nid Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol yw'r unig fath o ymchwiliad a gynhelir ac er nad oes data ar gael i ystyried y cyfle na'r effaith ehangach, mae'n rhesymol nodi y gallai adnoddau a arbedir mewn man arall gael eu defnyddio i gefnogi ymchwiliadau i Ddigwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol a rhoi cyfle i leihau'r amser canolrifol a gymerir i'w cwblhau.

119. Gallai fod cyfleoedd i ymgysylltu'n fwy effeithiol o'r dechrau a, thrwy leihau nifer yr ymchwiliadau i gwynion, ailddyrannu adnoddau i'r ymchwiliadau i ddigwyddiadau diogelwch cleifion mwy cymhleth.

120. Bydd un o'r diwygiadau i'r rheoliadau yn rhoi llawer mwy o eglurder ynghylch dyletswydd y corff cyfrifol i asesu'r angen am eiriolaeth a chymorth ar sawl cam yn y broses pryderon. Mae'r pwyslais hwn yn adeiladu ar weithdrefn y ddyletswydd gonestrwydd a oedd hefyd yn rhoi pwyslais tebyg ar sicrhau bod pobl yn cael cymorth digonol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu clywed ac y gallent chwarae rhan fwy blaenllaw yn y broses Gwrando ar Bobl. Bydd hyn yn sicr yn cael effaith ar Llais a sefydliadau trydydd sector am y gallai'r galw posibl am eiriolaeth gynyddu.

121. Ar hyn o bryd, mae Llais yn rhan o 10% o gyfarfodydd ynghylch digwyddiadau diogelwch cleifion a gellir disgwyl yn rhesymol i'r gyfradd hon gynyddu yn sgil y diwygiadau arfaethedig.

122. Bydd angen i Gyrff Cyfrifol gynllunio'n ofalus sut y byddant yn ailddyrannu eu hadnoddau i sicrhau'r amser ychwanegol sydd ei angen ar gamau cynnar y broses a bydd angen ystyried sut i gyllido'r cynnydd

posibl o 22% mewn iawn a allai godi yn sgil y lleihad cyffredinol yng nghostau'r bil ymgyfreitha drwy roi hyn ar waith a'r rhestr ffioedd cyfreithwyr newydd sy'n cyd-fynd ag ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y cynigion o ran cynllun costau adenilladwy sefydlog ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol isel eu gwerth.

123. Tabl 19 - Costau suddedig a chostau cyfle cyffredinol i Lywodraeth Cymru a'r GIG am 7 mlynedd

| | 2024–5 | 2025–6 | 2026–7 | 2027–8 | 2028–9 | 2029–30 | 2030–1 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru** | | | | | | | |
| Costau staff y rhaglen (i) | 204,900 | 89,200 | | | | | |
| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | £600 | | | | | | |
| Deunyddiau Hyfforddi | | £10,500 | | | | | |
| Cynnyrch iaith arwyddion Prydain | | | £1800 | | | | |
| Ymgyrch ymwybydd-iaeth gyhoeddus | | £11,400 | | | | | |
| Canllawiau a deunyddiau ategol | | £45,800 | | | | | £7,100 |
| **Cyfanswm** | £205,500 | £156,900 | £1,800 | | | | £7,100 |
| **Cyrff y GIG (costau cyfle)** | | | | | | | |
| Cynllunio gweithredu | | £1,799,400 | | | | | |
| Amser hyfforddi (ii) | | £1,233,200 | £3,699,500 | £493,040 | £493,040 | £493,040 | £493,040 |
| Hyfforddiant arfaethedig Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | | £18,700 | | | | | |
| Mwy o gyngor cyfreithiol | | | 7,600 | 7,600 | 7,600 | 7,600 | 7,600 |
| **Cyfanswm** | | £3,051,300 | £3,707,100 | £500,640 | £500,640 | £500,640 | £500,640 |

(i) Mae'r rhaglen yn rhedeg rhwng mis Ebrill 2023 a mis Hydref 2025. Costau secondai'r GIG (mis Ebrill 2023 tan fis Mehefin 2025)

(ii) Cyfrifir amser hyfforddi fel effaith rannol yn 2025/6 a bydd ¾ o'r hyfforddiant yn digwydd yn 2026/7 ac yn rhagdybio y bydd trosiant o 10% yn galw am hyfforddiant newydd.

124. Tabl 20 - Dadansoddiad o'r adnoddau (amser a dreulir ar ymatebion i gwynion) a chyfleoedd arbed.

| Metrig | Gwerth | Diwrnodau Gwaith |
|---|---|---|
| Cwynion yn lleihau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf | O 19062 i 18334 = 728 | 21,840 o ddiwrnodau gwaith |
| Data ar NRI yng Nghymru 2022/23 | 857 (ii a iii) | 11,2267 - 113981 |
| Data ar NRI yng Nghymru 2023/24 | 1046 (ii a iii) | 137026 -139118 |
| Data ar NRI yng Nghymru 2024/25 | 840 (ii a iii) | 11,0040 – 11,1720 |
| Lleihad yn nifer yr NRI | 206 (ii a iii) | 26,986 - 27,398 |
| 5% o welliant mewn cwynion | 917 o gwynion, | 27,510 o ddiwrnodau gwaith a arbedwyd |
| 10% o welliant mewn cwynion | 1833 o gwynion, | 54,999 o ddiwrnodau gwaith a arbedwyd |

Data crai yw gwybodaeth reoli, nad ydynt wedi cael eu dilysu ac nad ydynt yn cyrraedd safon ystadegau gwladol.

125. Tabl 21 – Ymrwymiad amser y drafodaeth wrando gydag amrywiaeth yn y niferoedd sy'n manteisio arni

| **Faint sy'n manteisio ar drafodaeth mewn amser** | **50% yn manteisio gyda 5% o welliant** | **4,354 awr** |
|---|---|---|
| Faint sy'n manteisio ar drafodaeth mewn amser | 75% yn manteisio gyda 5% o welliant | 6531 awr |
| Faint sy'n manteisio ar drafodaeth mewn amser | 100% gyda 5% o welliant | 8709 awr |
| Faint sy'n manteisio ar drafodaeth mewn amser | 50% yn manteisio gyda (10% o welliant) | 4125 awr |
| Faint sy'n manteisio ar drafodaeth mewn amser | 75% yn manteisio gyda (10% o welliant) | 6189 awr |
| Faint sy'n manteisio ar drafodaeth mewn amser | 100% yn manteisio gyda (10% o welliant) | 8250 awr |

(i) Cyfrifir fel amser canolrifol o 30 diwrnod gwaith ar gyfer ymateb a gwblhawyd wedi'i luosi â nifer y cwynion y llwyddwyd i'w lleihau. Bydd y ffigur gwirioneddol yn gyfran gynrychioliadol o hyn.

(ii) Amser canolrifol Ymddiriedolaeth GIG / Awdurdod Iechyd Arbennig (AIA) ar gyfer ymchwiliad a gwblhawyd i Ddigwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol, sef 131 o ddiwrnodau gwaith
(iii) Amser canolrifol BILl ar gyfer ymchwiliad a gwblhawyd i Ddigwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol, sef 133 o ddiwrnodau gwaith

126. Cydnabyddir na fwriedir i'r ffaith fod diwrnodau gwaith wedi'u cynnwys yma fod yn gymhariaeth uniongyrchol â'r amser ychwanegol ar gyfer y drafodaeth wrando gan na fydd yr holl ddiwrnodau gwaith yn cael eu treulio ar bob achos unigol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn rhesymol tybio y bydd effeithlonrwydd amser gwaith uniongyrchol yn cael ei greu gan y gostyngiad cyffredinol mewn cwynion neu ymchwiliadau i ddigwyddiadau, y mae potensial iddo cael ei ddefnyddio gan sefydliadau i wrthbwyso'r amser ychwanegol ar gyfer y drafodaeth wrando neu ddiwygiadau eraill sy'n effeithio ar adnoddau.

**Asesiad cystadleuaeth**

127. Roedd y prif Reoliadau eisoes yn cynnwys gofyniad i gyfreithwyr hawlwyr fod yn arbenigwyr cymwysedig addas yn y maes esgeuluster clinigol ac yn aelodau o banel arbenigol Cymdeithas y Cyfreithwyr neu banel esgeuluster clinigol Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol. Nid yw'r gofynion hyn wedi newid.

128. Mae'r rhestr ffioedd uwch arfaethedig yn cyd-fynd ag ymgynghoriad cyhoeddus gan Lywodraeth y DU a ymgynghorodd ar y cwestiynau ynghylch hepgoriadau addas a bu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru ar addasu'r Rhestr Ffioedd yn 2024. Felly, nid ydym o'r farn bod angen cynnal asesiad o gystadleuaeth ar gyfer y Rheoliadau hyn gan na fyddant yn effeithio ar y sector busnes mewn ffordd newydd sylweddol.

**Adolygu ar ôl gweithredu**

129. Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer dau fath o fonitro a dysgu – monitro'r broses, a fydd yn cael ei wneud drwy ddatganiadau ystadegol ac adroddiadau blynyddol; a dysgu o bryderon, sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddangos eu bod wedi defnyddio canlyniad ymchwiliadau yn rhagweithiol i ddysgu gwersi ac wedi'u defnyddio wrth wella gwasanaethau. Bydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn rhoi canllawiau i'r GIG o safbwynt beth i'w ddisgwyl o ran gwybodaeth.

**Crynodebau o'r asesiadau effaith integredig:**

130. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn cyfuno sawl asesiad allweddol er mwyn sicrhau bod rheoliadau newydd yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith gyda dealltwriaeth gynhwysfawr o'u heffeithiau:

131**. Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant**: Daw'r asesiad i'r casgliad bod anghenion plant wedi cael eu hystyried yn drylwyr fel rhan o broses Gwrando ar Bobl. Gwnaed hyn drwy sesiynau grŵp ffocws a gynhaliwyd gan Plant yng Nghymru. Darparodd y sesiynau hyn wybodaeth ac adborth gwerthfawr ynghylch y broses ddiwygiedig, gan sicrhau bod safbwyntiau a hawliau plant yn cael eu trin yn ddigonol. Drwy ymgorffori'r mewnbynnau hyn, mae proses Gwrando ar Bobl yn ceisio bod yn fwy cynhwysol ac ymatebol i anghenion a hawliau unigryw plant, gan hybu eu llesiant a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed mewn materion sy'n effeithio arnynt.

132**. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**: Mae'r broses Gwrando ar Bobl yn gam mawr ymlaen i wneud system gwynion GIG Cymru yn fwy hygyrch, cynhwysol ac ymatebol. Er nad yw'n effeithio ar ddyletswyddau cydraddoldeb presennol nac yn cael effaith negyddol ar unrhyw grwpiau neu nodweddion gwarchodedig, disgwylir i'r broses gael dylanwad cadarnhaol ar allu unigolion o gefndiroedd amrywiol i godi pryderon a chwynion yn effeithiol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymrwymiad i ofal o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

133**. Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data:** Dangosodd adnodd sgrinio data nad oedd angen cynnal asesiad llawn. Fodd bynnag, mae ffurflen hysbysiad erthygl 36 wedi cael ei chyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

134**. Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder:** Dangosodd Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder nad oedd angen nodi'r effaith ar y Gwasanaeth Cyfiawnder yn llawn. Yn yr asesiad o'r effaith ar gyfiawnder, cyfeirir at adolygiad 5 mlynedd o effaith y newidiadau i'r rheoliadau a bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud cynlluniau i adolygu'r effaith ar yr adeg honno. Ni ragwelir y bydd proses Gwrando ar Bobl ei hun yn cael effaith ar y system gyfiawnder.

135. Ni fydd proses Gwrando ar Bobl yn creu digwyddiadau diogelwch cleifion oherwydd dylai cyrff y GIG roi gwybod am y rhain yn barod, ond bydd angen i gyrff y GIG fod yn agored ac yn onest wrth ddelio ag ymchwiliadau i ddigwyddiadau neu gwynion. Yn yr hirdymor, rhagwelir y bydd y broses o ddysgu o ddigwyddiadau diogelwch cleifion yn lleihau nifer yr achosion, a fydd yn arwain at lai o gwynion ac ymgyfreitha gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'n bosibl hefyd y bydd lleihad yn nifer

yr achosion sy'n ymuno â'r llwybr achosion sifil os caiff y cynnydd i'r trothwy iawndal ei ddiwygio fel y cynlluniwyd.

136. Nid yw'n ymddangos bod y broses Gwrando ar Bobl yn effeithio ar waith y farnwriaeth na gweinyddiaeth y system llysoedd a'r system tribiwnlys gan nad yw'n cynnwys unrhyw newidiadau i gyfraith trosedd (fel troseddau neu gosbau newydd), hawliau apêl, na gweithrediad y system farnwrol.

**Asesiad Dyletswydd Ansawdd**

Mae Dyletswydd Ansawdd Gweinidogion Cymru o dan adran 1A o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006, a fewnosodwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, yn ei gwneud yn ofynnol inni ddangos ein bod yn gwneud polisïau a phenderfyniadau gan geisio gwella ansawdd gwasanaethau iechyd yn unol â'r meini prawf canlynol:

**Diogel** – mae'r diwygiadau i'r prif Reoliadau a'r canllawiau yn ceisio gwella profiad cleifion drwy fod yn agored ac yn dryloyw a defnyddio gwersi a ddysgir i atal niwed o ddigwyddiadau yn y dyfodol.

**Amserol** – mae'r cynigion yn ceisio cynyddu'r defnydd a wneir o'r broses Datrys yn Gynnar ac ymestyn yr amserlen ar gyfer Datrys yn Gynnar a fydd yn golygu y caiff pryderon eu datrys yn gyflymach.

**Effeithiol** – mae'r broses Gwrando ar Bobl yn ceisio hyrwyddo trefniadau i ddysgu o bryderon a chwynion gan wella profiad unigolion wrth iddynt fynd drwy'r broses. Disgwylir i'r gwersi a ddysgir wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau, gan eu gwneud yn fwy effeithiol.

**Effeithlon** – byddai'r cynigion yn gwneud y broses Gwrando ar Bobl yn fwy effeithlon, drwy geisio cynyddu'r defnydd a wneir o'r broses Datrys yn Gynnar, gan osgoi oedi trallodus cyn datrys pryder neu gŵyn. Bydd cynyddu'r trothwy ar gyfer iawndal ar gyfer achosion ym mhroses gwneud iawn Gwrando ar Bobl o £25,000 i £50,000 yn golygu y gall mwy o achosion fynd drwy broses gwneud iawn Gwrando ar Bobl yn hytrach na throi at ymgyfreitha costus.

**Teg** – bydd y cynigion i godi ymwybyddiaeth cleifion o'r ffaith y gall personau sy'n rhoi gwybod am bryderon gael eiriolaeth a chyngor arbenigol am ddim, ac i gynyddu'r ffioedd a gynigir i gyfreithwyr, yn cynyddu mynediad at gynrychiolaeth arbenigol.

**Canolbwyntio ar yr unigolyn** – bydd diwygio'r rheoliadau a diweddaru'r canllawiau yn gwella eglurder a dealltwriaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau ac ymarferwyr. Bydd dealltwriaeth well a mwy o ymwybyddiaeth o'r cyngor arbenigol a chyfreithiol am ddim sydd ar gael yn darparu mwy o gymorth i achwynwyr.

**Arweinyddiaeth** – bydd gwell llywodraethiant ac atebolrwydd drwy ganllawiau cliriach; drwy foderneiddio ein trefniadau gwneud iawn; drwy osod safonau ar gyfer cynnwys a gwerthfawrogi ein cleifion a'u teuluoedd wrth reoli pryderon a chwynion gyda gofal iechyd, a thrwy ddal sefydliadau i gyfrif am eu harferion o ran bod yn agored a thryloyw.

**Diwylliant a gwerthfawrogi pobl** – bydd y cynigion i wella'r canllawiau a'r deunyddiau ar hyfforddiant staff yn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar staff i ddelio â phryderon a chwynion.

**Gwybodaeth** – bydd y cynigion i wella'r canllawiau a'r deunyddiau ar gyfer hyfforddiant staff, a thrwy ragnodi disgwyliadau ar gyfer cyfarfodydd cleifion ar ddechrau a diwedd y broses gwyno, yn rhoi adborth uniongyrchol i staff y GIG, gan wella eu dealltwriaeth o bryderon a chwynion.

**Dysgu, gwella ac ymchwil** – bydd y cynigion yn gwella dealltwriaeth staff y GIG o bryderon a chwynion cleifion. Bydd cynnydd yn y defnydd a wneir o'r broses Datrys yn Gynnar yn lleihau nifer yr hawliadau sy'n ymwneud ag achosion esgeuluster clinigol.

**Persbectif** – mae'r cynigion yn ceisio sicrhau bod modd setlo pryderon a chwynion yn gyflymach ac yn fwy effeithlon, heb effeithio ar fynediad cleifion at gyfiawnder. Maent hefyd yn ceisio lleddfu'r pwysau cost sylweddol a achosir gan gostau achosion esgeuluster clinigol, nas cynlluniwyd ar eu cyfer yn aml. Bydd hyn yn rhoi cyfle i sefydliadau'r GIG ailfuddsoddi'r arian mewn meysydd eraill â blaenoriaeth, fel gofal a gwasanaethau rheng flaen.

**Gweithlu** – bydd cryfhau'r canllawiau a'r trefniadau gwneud iawn (yn enwedig y cynnig i wella'r canllawiau a'r deunyddiau ar gyfer hyfforddiant staff) yn helpu'r gweithlu sy'n rheoli'r prosesau hyn. Drwy ddysgu o'r digwyddiadau hyn, bydd staff y GIG yn gwella eu hymarfer a fydd yn eu galluogi i dyfu'n broffesiynol a bydd yn arwain at weithlu mwy gwybodus sydd wedi'i hyfforddi'n well.